**Rhif: WG31891**

Llywodraeth Cymru
# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus

## Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – Datblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddiwygiedig

Dyddiad Cyhoeddi: **Rhagfyr2017**

OGL © Hawlraint y Goron ISBN digidol 978-1-78859-933-7

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar *Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – Datblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddiwygiedig* |
| **Camau gweithredu gofynnol** | Dim. Er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol<br>Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost:<br>DiwygioPCET@llyw.cymru |

## Cynnwys

Crynodeb ........................................................................................................................4
Cynllunio Strategol:...........................................................................................................6
Un Corff Cyllido...............................................................................................................9
Diogelu buddiannau dysgwyr yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol..........................12
Cefnogi dysgwyr sy’n dymuno newid cwrs neu ddarparwr...................................................13
Rheoli Cwynion Dysgwyr ..................................................................................................13
Sicrhau a Gwella Ansawdd ................................................................................................14
Sicrwydd Ariannol a Llywodraethu .....................................................................................15
Rheoli Perfformiad a Risg ..................................................................................................15
Ymchwil ac Arloesi ............................................................................................................16
Ehangu mynediad a chyfranogiad yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ..................19
Mesur effaith ....................................................................................................................25
Lleoliadau chweched dosbarth............................................................................................27
Rheoli’r berthynas rhwng y Comisiwn a darparwyr. .............................................................30
Llywodraethu Addysg Uwch...............................................................................................31
Trefniadau pontio – Paratoi i weithredu ..............................................................................33
Y Gymraeg........................................................................................................................35
Sylwadau Eraill .................................................................................................................37
Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr..........................................................................................38
Atodiad B1 – Crynodeb o ymatebion i’r sioe deithiol............................................................39
Atodiad B2 - Rhestr o Fynychwyr y Sioe Deithiol.................................................................46
Atodiad C1 – Crynodeb o Ddigwyddiad Llais y Dysgwr .......................................................47
Atodiad C2 Rhestr o Fynychwyr Digwyddiadau Llais y Dysgwr ...........................................49

## Crynodeb


1. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gynigion i ddiwygio'r Sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol yng Nghymru. Lansiwyd yr ymgynghoriad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams ar 20 Mehefin, a datblygwyd y cynigion ar sail argymhellion allweddol yr Athro Hazelkorn. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 23 Hydref a derbyniwyd 92 o ymatebion ysgrifenedig. https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgynghoriadau/system-addysg-hyfforddiant-ol-orfodol-wedii-diwygio .

2. Roedd y Llywodraeth Cymru flaenorol wedi comisiynu'r Athro Hazelkorn i gynnal adolygiad o addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (PCET) oherwydd pryderon ynglŷn â sut roedd y sector yn cael ei reoli. Daeth i'r casgliad nad oedd y system PCET yng Nghymru yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddysgwyr ac nad oedd yn sicrhau gwerth am arian. Mae sawl sefydliad yn cyfrannu at y gwaith o ariannu, monitro a rheoleiddio elfennau gwahanol y sector, sy'n cynnwys addysg bellach (AB), addysg uwch (AU), dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned. Teimlwyd bod hyn yn arwain at gymhlethdod, dryswch a gwastraff posibl. Pwysleisiodd yr Athro Hazelkorn fod angen i'r sector PCET osgoi gweithredu fel sawl sector ar wahân sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Aeth ati i annog cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth rhwng darparwyr PCET o bob math, er mwyn helpu dysgwyr i wireddu eu potensial a sicrhau mwy o gysylltiad ag anghenion y farchnad lafur.

3. Nodwyd ei chanfyddiadau yn *Tuag at 2030 – Fframwaith ar gyfer Datblygu System Addysg Ôl-orfodol o'r Radd Flaenaf i Gymru* sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/reports/review-of-the-oversight-and-regulation-of-post-compulsory-education-and-training-in-wales/?skip=1&lang=cy

4. Mae **Ffigur 1** yn dangos yr ymatebion a dderbyniodd y grŵp. Daeth y nifer fwyaf o ymatebion o gyrff/grwpiau cynrychioladol, ac yna sefydliadau neu adrannau AU ac AB. Mae crynodeb byr o brif themâu a phenawdau'r ymatebion wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon. Cynhelir dadansoddiad manylach fel rhan o gam nesaf datblygiad polisi a syniadau, felly nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn ffurfiol i'r pwyntiau a godwyd yma.

**Ffigur 1:**




5. Yn ogystal â'r ymgynghoriad ysgrifenedig, cynhaliodd Llywodraeth Cymru dair sioe deithiol ledled Cymru lle'r oedd cyfle i randdeiliaid allweddol rannu eu safbwyntiau mewn gweithdai. Rhoddwyd sylw i lais dysgwyr mewn sesiynau arbennig mewn dau ddigwyddiad Sgiliau Cymru. Mynychwyd y digwyddiadau hyn gan gynrychiolwyr o'r holl sectorau hefyd. Cymerodd rhai pobl ifanc o dan 16 oed ran yn y sesiynau hefyd, gan fynegi eu safbwyntiau ar gwestiynau allweddol. Mae Atodiad B ac Atodiad C yn cynnwys crynodeb o'r prif ymatebion yn y digwyddiadau hyn.

6. Hefyd, comisiynwyd ymgynghoriad penodol ar gyfer pobl ifanc a grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Roedd hyn yn cynnwys 13 o weithdai rhyngweithiol ledled Cymru a fynychwyd gan bron i 200 o ddysgwyr. Mae manylion canfyddiadau'r digwyddiadau hyn wedi'u cyhoeddi ar wahân ac maent ar gael yma: XX . Roedd y gweithdai'n casglu gwybodaeth mewn ffordd nad oedd yn safonedig, sy'n golygu nad yw dadansoddiad ystadegol yn briodol, ond mae'n llwyddo i gynnig naratif ansoddol effeithiol gyda sylwadau defnyddiol gan y rhai a gafodd eu heffeithio'n uniongyrchol.

## Cynllunio Strategol:

### Ein cwestiynau:

**Cwestiwn 1:**
Ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn gyfrannu at waith cynllunio strategol ar lefel genedlaethol ledled y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol?

**Cwestiwn 2:**
A ddylai Cytundebau Deilliannau fod yn sylfaen i berthynas cynllunio strategol y Comisiwn â sefydliadau a darparwyr? Os felly, pa gamau y gellid eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw Cytundebau Deilliannau yn hyrwyddo meddylfryd tymor byr ymysg sefydliadau?

**Cwestiwn 1:**
Cafwyd consensws cyffredinol gan y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn. Nodwyd nifer o faterion sydd angen rhoi sylw iddynt wrth ystyried cynllunio strategol yn y dyfodol. Mae rhai ohonynt wedi'u hamlinellu isod.

- Mae angen agwedd gyson a chydgysylltiedig at gynllunio strategol sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac yn ystyried anghenion cymdeithasol, economaidd a sgiliau Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Mae'n rhaid i ddysgwyr fod yn bartneriaid hanfodol yn y broses o greu cynllun strategol cenedlaethol. Ni ddylai trosolwg strategol gael effaith niweidiol ar lais myfyrwyr.
- Dylai gwaith y comisiwn gael ei lunio gan gydnabyddiaeth na fydd pob dysgwr yn datblygu mewn ffordd linol, ac y bydd mwy o unigolion yn awyddus i gael cyfle i ddysgu ar adegau gwahanol o'u bywydau. Gall y Comisiwn wneud cyfraniad posibl at hyrwyddo gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn ymwneud â llwybrau dysgwyr.
- Mae angen sicrhau bod gwaith cynllunio yn strategol ac nad yw'n rhy weithredol; ei fod yn seiliedig ar fodel *'galluogi partneriaethau'*; dylai anghenion cynllunio ganolbwyntio ar ddysgwyr (o bob oedran), nid pynciau; dim rheoli micro; dylid osgoi defnyddio gwaith cynllunio fel gweithred aneffeithiol nad yw'n ystyried gwahaniaethau rhwng cyrsiau.
- Gallai'r Comisiwn ddarparu cymorth ychwanegol i helpu darparwyr i gyflawni eu hamcanion, yn hytrach na rhoi cyfarwyddyd, gan ddefnyddio ei sefyllfa unigryw i hyrwyddo partneriaethau a lleihau cystadleuaeth rhwng addysg bellach ac addysg uwch, a hyrwyddo cydweithio rhwng gwahanol elfennau o'r sector. Dylai corff cynllunio strategol y Comisiwn feddu ar wybodaeth a phrofiad priodol o addysgeg academaidd a galwedigaethol. Mae'n hollbwysig sicrhau ymreolaeth SAU.
- Dylai gwaith cynllunio cenedlaethol gael ei lywio gan flaenoriaethau ac argymhellion rhanbarthol, gan ystyried gwahaniaethau a chryfderau lleol. Mae angen osgoi canlyniadau anfwriadol ac osgoi amharu ar bartneriaethau sydd eisoes yn bodoli.
- Mae angen i'r Comisiwn reoli cyllid er mwyn datblygu cynlluniau strategol ystyrlon ac ymarferol.
- Mae angen sicrhau nad yw ad-drefnu pynciau yn tanseilio gallu Prifysgolion i gystadlu am fyfyrwyr yn genedlaethol/rhyngwladol. Mae angen ystyried cysylltiadau Cymru â gweddill y DU a chydnabod na all Cymru weithio ar ei phen ei hun.
- Mae angen ystyried cysylltiad â strategaethau sgiliau gwledydd eraill y DU er mwyn sicrhau cysondeb a sicrhau bod dysgwyr yn gallu trosglwyddo sgiliau.

- Mae angen dull cadarn o ymgynghori â sectorau busnes (cyflogwyr), myfyrwyr (a darpar fyfyrwyr), darparwyr addysg a Phartneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol.
- Dylid ystyried cyfnod y cynllun strategol yn briodol – gan fanteisio ar y cyfle i gynllunio'n fwy hirdymor; mae mwy o ranbarthau Cymru yn cynllunio ar gyfer datblygiad economaidd, gan gynnwys sgiliau, ar sail pymtheg i ugain mlynedd, yn unol â gofynion eu bargeinion dinesig neu eu bargeinion twf perthnasol.
- Gallai fod yn gyfle da i greu amodau ar gyfer hyblygrwydd ac ymatebolrwydd yn y sector PCET yng Nghymru, fel bod y sector yn gallu cystadlu a manteisio ar gyfleoedd cenedlaethol/byd-eang/economaidd a chymdeithasol ar ôl Brexit.
- Mae angen cydnabod amodau penodol ar gyfer rhai sectorau – e.e. bydd SAU a rhai SAB yn gweithio'n drawsffiniol; bod SAU yn cystadlu ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.
- Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai'r sefydliad newydd fod yn rhan o strwythur presennol CCAUC (gan gydnabod pwerau newydd CCAUC trwy Ddeddf AU (Cymru) 2015), gan gynnwys sicrhau bod pwyllgor ymchwil yn rhan o'i gwmpas.

**Cwestiwn 2:**

Yn gyffredinol, derbyniwyd y cynnig hwn *i raddau*, gan ddibynnu ar natur a manylion y cytundebau, nad ydynt ar gael eto.

- Roedd teimlad cryf na allai'r cytundebau hyn gael eu cynnal ar yr un pryd â Chynlluniau Ffioedd a Mynediad gan y byddai hyn yn creu gormod o faich gweinyddol, ond teimlwyd y gallent ddatblygu o'r cynlluniau dros amser.
- Bydd angen sicrhau bod unrhyw gytundebau deilliannau yn hyblyg ac yn gymesur, eu bod yn cael eu gwneud mewn cydweithrediad â sefydliadau a'r Comisiwn, a'u bod yn seiliedig ar ddeilliannau mesuradwy, ymarferol a chyraeddadwy sy'n cael eu cytuno gan y ddwy ochr. Hefyd, dylid craffu arnynt yn annibynnol, eu teilwra i sefydliadau penodol ac ystyried eu proffil dysgwyr, eu hunaniaeth benodol ac ati.
- Hefyd, gallai cytundebau ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr feddwl a gweithio y tu hwnt i'w sector eu hunain. Gallai'r cytundebau hyn sicrhau bod y system yn canolbwyntio ar ddysgwyr. Ni ddylent ddibynnu gormod (os o gwbl) ar ddata recriwtio a chadw myfyrwyr, a dylent ganolbwyntio mwy ar ansawdd y ddarpariaeth.
- Ni all cyllid o bob math fod yn seiliedig ar gytundebau deilliannau; ni ddylai incwm o ffioedd (ac ni *allai* incwm o ffioedd o bosibl) fod yn gysylltiedig â chytundebau deilliannau.
- Gallai cytundebau deilliannau weithredu fel cytundeb rhwng y Comisiwn, darparwyr a myfyrwyr er mwyn sicrhau bod y broses yn canolbwyntio ar fyfyrwyr. Ni ddylai cytundebau deilliannau gyfyngu ar uchelgais y sector neu atal y sector rhag manteisio ar gyfleoedd. Mae angen cydnabod cystadleuaeth.
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod cytundebau deilliannau sydd wedi'u cynllunio'n dda yn gallu bod yn effeithiol, ond bod system cytundebau deilliannau sy'n cael ei defnyddio i newid blaenoriaethau'n gyflym ym maes PCET bob blwyddyn yn annhebygol o fod yn effeithiol.
- Dywedodd sawl ymatebydd na ddylai deddfwriaeth ragnodi natur cytundebau deilliannau yn rhy fanwl gan y byddai hyn yn atal yr hyblygrwydd gofynnol.
- Mae angen i gytundebau deilliannau gynnwys nodau rhanbarthol a gofodol, e.e. ar gyfer rhanbarth y Canolbarth. Mae angen iddynt sicrhau mynediad cyfartal i ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd llai poblog o Gymru.
- Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at fodel cytundebau deilliannau Cyngor Cyllido'r Alban, gan gynnig adolygiad o hyn yng nghyd-destun anghenion Cymru.

Sut i osgoi meddwl tymor byr

- Canolbwyntio ar gynllunio mwy hirdymor, gan sicrhau bod cynlluniau'n gysylltiedig ag anghenion hyfforddiant ar sail gwybodaeth am y diwydiant a gwybodaeth effeithiol am y farchnad lafur er mwyn nodi prinder sgiliau a helpu i lywio cyrsiau gofynnol.
- Cymorth gan gleientiaid a datblygwyr prosiectau seilwaith mawr i rannu rhagolygon gweithlu yn gynnar er mwyn cynorthwyo cynllunio strategol y Comisiwn.
- Dylai deilliannau fod yn seiliedig ar gefnogi a gwella dysgwyr ac ar gyflogadwyedd yn hytrach nag ar gymwysterau yn unig.
- Gallai cytundebau deilliannau arwain at recriwtio dethol a meddwl tymor byr ar draul addysg dysgwyr, gan effeithio'n negyddol ar economi Cymru. Mae angen i'r system fod yn ddigon hyblyg i ymateb i newidiadau.
- Gellid eu defnyddio i greu cynlluniau mwy hirdymor, ac os ydynt yn cael eu defnyddio dylent bara o leiaf 3 blynedd, ond 5 mlynedd os oes modd.

Pryderon yn ymwneud â Chytundebau Deilliannau

- Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod angen mwy o wybodaeth am fanylion y cytundebau deilliannau arfaethedig, sut y byddent yn cael eu defnyddio a'r mathau o ymddygiad y byddent yn eu hyrwyddo cyn y gallent gefnogi'r dewis.
- Mynegwyd rhai pryderon gan ymatebwyr o'r sector AU, gan gynnwys rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu bod cytundebau deilliannau wedi bod yn aneffeithiol mewn llefydd eraill.
- Roedd yr ysgolion a ymatebodd yn teimlo na fyddai cytundebau deilliannau yn addas o bosibl ar gyfer holl elfennau'r sector PCET.
- Mynegwyd pryderon ynglŷn ag unrhyw effaith ar ymreolaeth sefydliadau a rhyddid academaidd.
- Ni ddylid defnyddio cytundebau deilliannau ar gyfer proffilio sefydliadol neu i ad-drefnu cwricwla neu bortffolios.
- Gellid cyflwyno dulliau gwell sy'n defnyddio llai o adnoddau o reoli cysylltiadau rhwng y corff newydd a darparwyr (ni roddwyd enghreifftiau).
- Gallai cytundebau deilliannau fod yn effeithiol yng nghyd-destun ffrydiau ariannu penodol ond nid fel modd o reoli'r cysylltiad rhwng y Comisiwn a darparwyr addysg.
- Gallai cytundebau deilliannau sy'n cynnwys system o 'dalu ar sail canlyniadau' amharu ar genhadaeth addysgol ehangach darparwyr a mynd yn groes i'r 'Cwricwlwm ar gyfer Cymru' newydd mewn sectorau cyn-16.

## Un Corff Cyllido

**Cwestiwn 3:**
Ydych chi'n cytuno y dylai cyllid ar gyfer y Comisiwn ddibynnu ar lunio cynllun strategol wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru?

**Cwestiwn 4:**
Ydych chi'n cytuno y dylai cymhwysedd darparwr ar gyfer cyllid ddibynnu ar lunio Cytundeb Deilliannau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau perthnasol yn y Cynllun Strategol?

**Cwestiwn 5:**
Ydych chi'n cytuno y dylai lefelau cyllid ddibynnu, mewn unrhyw ffordd, ar berfformiad darparwr yn erbyn ei Gytundeb Deilliannau?

**Cwestiwn 6:**
Ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn fod â'r pŵer i wneud argymhellion i'r sefydliad a/neu Lywodraeth Cymru, os yw sefydliad mewn perygl ariannol difrifol?

**Cwestiwn 7:**
Os yw'r Comisiwn yn credu nad yw sefydliad yn hyfyw yn ariannol bellach, ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn fod â'r pŵer i wneud argymhellion priodol i Lywodraeth Cymru? Pa fesurau diogelu y bydd eu hangen o bosibl?

**Cwestiwn 3:**
Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn credu y dylai Gweinidogion Cymru gymeradwyo unrhyw gynllun strategol ac y dylai cyllid ddibynnu ar hynny, cyn belled â bod ymgynghoriad wedi'i gynnal â rhanddeiliaid. Awgrymodd rhai ymatebwyr gynnwys posibl ar gyfer y cynllun.

- Gallai'r cynnig hwn fod yn fan cychwyn rhesymegol. Gallai sicrhau atebolrwydd ar gyfer cyllid cyhoeddus; byddai angen sicrhau cytundeb rhanddeiliaid cyn derbyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Dylai amserlenni ar gyfer cyllid fod yn debyg i amserlenni cynlluniau, sef tymor canolig/hirdymor.
- Byddai'n darparu trosolwg o amcanion allweddol cylch gwaith y Comisiwn sy'n adlewyrchu anghenion cymdeithasol ac economaidd Cymru, gan ystyried cymunedau yng Nghymru a materion a amlygwyd gan adroddiadau eraill. Dylai cynllun strategol sy'n cael ei oruchwylio gan Weinidogion Cymru sicrhau cysylltiad rhwng gwaith y Comisiwn â'r rhaglen lywodraethu yn ehangach.
- Gallai cynllun strategol ddarparu eglurder i randdeiliaid ynglŷn â blaenoriaethau a gweithgareddau'r Comisiwn a'i weledigaeth hirdymor ar gyfer PCET. Mae angen i'r Llywodraeth a'r sector PCET ymgynghori â rhanddeiliaid eraill i ddatblygu gweledigaeth lefel uchel, gan alluogi'r Comisiwn i lunio ei gynllun strategol. Wedyn, byddai'n briodol i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r cynllun.
- Mae angen sicrhau bod y cynllun strategol yn cynnwys amcanion mesuradwy penodol a dull adolygu a gwerthuso. Dylai Gweinidogion dderbyn cyngor ac arweiniad gan arbenigwyr y Comisiwn yn ystod y broses gymeradwyo.
- Dylai un o Bwyllgorau'r Cynulliad gyfrannu at y gwaith o adolygu'r cynllun a'r cyllid sy'n deillio ohono.

**Cwestiwn 4:**
Roedd barn ymatebwyr ar y mater hwn yn amrywio. Roedd rhai ohonynt eisiau esboniad o'r math o gyllid a oedd yn cael ei drafod ac o union natur y Cytundeb Deilliannau. O ganlyniad, nid oeddent yn siŵr sut i ateb y cwestiwn.

- Mae angen sicrhau cydbwysedd priodol rhwng darparu rhywfaint o sicrwydd ariannol ar gyfer darparwyr a'u myfyrwyr, a'r angen i sicrhau datblygiad ystyrlon yn erbyn amcanion y cytunwyd arnynt.
- Gallai cyllid ar gyfer darparwyr cofrestredig fod yn amodol ar ffactorau eraill a chanlyniadau gofynnol, a allai lywio proses cytundeb deilliannau. Dylai'r Comisiwn allu ariannu y tu allan i broses cytundeb deilliannau (e.e. ar gyfer datblygiadau strategol neu fathau penodol o ddarpariaeth).
- Byddai model cymysg o gyllid craidd a chyllid sy'n gysylltiedig â deilliannau yn sicrhau sefydlogrwydd ac yn cael effaith.
- Dylid canolbwyntio ar addysg berthnasol o ansawdd uchel yn hytrach na gwneud cais am arian bob blwyddyn.
- Mae angen cydnabod yr ardaloedd daearyddol unigryw sy'n cael eu gwasanaethu gan rai darparwyr, ac mae angen asesu'r risg sy'n deillio o rai ardaloedd yn colli cyllid er mwyn ystyried yr effaith ar grwpiau penodol.
- Dylai'r cynllun strategol ac unrhyw gytundeb deilliannau gael eu datblygu gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys dysgwyr a chyflogwyr.
- Dylai deilliannau fod yn gysylltiedig ag effeithiau mwy hirdymor yn hytrach na thargedau a chyflawniadau mesuradwy, tymor byr.

**Cwestiwn 5:**
Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cydnabod bod angen i ddarparwyr fod yn atebol am eu cyllid, mynegwyd pryderon gwirioneddol hefyd ynglŷn â dibynnu gormod ar Gytundebau Deilliannau. Roedd y materion a nodwyd yma yn debyg i'r rhai a godwyd wrth ymateb i gwestiwn 2 am Gytundebau Deilliannau yn gyffredinol.

- Mae'r rhai sy'n cefnogi'r dull gweithredu yn gwneud hynny mewn egwyddor ar yr amod bod mesurau perfformiad yn ymarferol ac yn cael eu haddasu yng nghyd-destun lleol a rhanbarthol y darparwr. Hefyd, cyfeiriodd ymatebwyr at yr angen i ystyried y gost o hyfforddiant ar gyfer darparwyr, gan gydnabod bod rhai pynciau yn ddrutach i'w darparu, ond bod angen cydbwyso'r ffaith hon â'u cyfraniad at yr economi ehangach. Roedd eraill yn teimlo y dylai Cytundebau Deilliannau gael eu defnyddio ar gyfer prosiectau penodol neu feysydd gwaith yn unig.
- Roedd teimlad cryf, yn enwedig ymysg ymatebwyr o'r sector AU, bod cymhellion yn fwy effeithiol na chosbi. Mae'n rhaid i'r Comisiwn sicrhau bod ffrydiau ariannu wedi'u neilltuo yn cael eu ffurfweddu fel eu bod yn nodi cenhadaeth wahanol elfennau gwahanol PCET (AU, AB, dysgu seiliedig ar waith ac ati). Dylai'r Comisiwn benderfynu ar y cyllid ar gyfer hynny, ac ni ddylai gael ei ddiffinio mor fanwl nes colli hyblygrwydd i gefnogi gweithgarwch newydd a gweithgarwch sy'n dod i'r amlwg.
- Mae angen ymgynghori â darparwyr cyn pennu mesuriadau perfformiad. Ni fydd cyllid sy'n seiliedig ar ddeilliannau llwyddiannus yn golygu bob amser bod darpariaeth o'r ansawdd gorau neu ddarpariaeth arloesol yn derbyn cymorth ariannol priodol.
- Os yw perfformiad yn cael ei gysylltu â chyllid, mae angen ystyried deilliannau tymor byr a mwy hirdymor, gydag elfen o gyllid craidd i sicrhau bod y system yn sefydlog.
- Byddai angen egluro sut mae perfformiad yn cael ei ddehongli, gan osgoi cosbi sefydliadau nad ydynt yn cyrraedd targedau oherwydd bod amgylchiadau dysgwyr yn

newid neu oherwydd newidiadau sydyn i gyflogaeth ranbarthol sy'n effeithio ar ddarparwyr.

- Cyfeiriodd sawl ymatebydd at adroddiad Prosiect 2 DEFINE [INSERT FOOTNOTE] Cymdeithas Prifysgolion Ewrop, sy'n argymell na ddylai llunwyr polisi ddefnyddio contractau perfformiad fel yr unig ddull ariannu, ac na ddylent frigdorri cyllid craidd ar gyfer cyllid contractau perfformiad, ond y dylent ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau ychwanegol.

**Cwestiwn 6:**
Cafwyd consensws y byddai angen gweithredu mewn rhai amgylchiadau er mwyn diogelu cyllid cyhoeddus ac amddiffyn dysgwyr – mae angen diffinio'r amgylchiadau hyn yn briodol. Roedd ychydig o ymatebwyr yn teimlo mai priod waith Llywodraeth Cymru yw hwn, ac nid y Comisiwn. Mynegwyd barn gyffredinol bod angen amddiffyn dysgwyr ond bod angen ymgynghori â sefydliadau hefyd a rhoi cyfle iddynt wella.

- Un ffordd bosibl ymlaen yw defnyddio prosesau presennol Deddf Addysg Uwch Cymru (2015)[1]. Mae CCAUC wedi datblygu polisi perthnasol fel y Cod Rheoli Ariannol a'r Datganiad o Ymyrraeth, a chynhaliwyd ymgynghoriad yn ddiweddar â'r sector AU a rhanddeiliaid eraill ar ddatblygu'r offerynnau polisi hyn, sydd newydd eu mabwysiadu.
- Mae angen rhagor o fanylion am statws cyfreithiol unrhyw argymhellion posibl gan y Comisiwn.
- Mynegwyd teimlad na ddylid gadael i'r sefyllfa fynd yn ddifrifol a bod angen gweithredu yn gynt os oes angen.
- Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng ymreolaeth sefydliadau a goblygiadau ar gyfer cwmnïau hyfforddi preifat.
- Mae angen cynnwys diffiniad clir o 'sefydliadau' (e.e. Awdurdodau Lleol a'u rôl gyda lleoliadau Chweched Dosbarth), ynghyd ag ystyr 'risg ariannol ddifrifol'.

**Cwestiwn 7:**
Roedd ymatebwyr o'r sector AU yn teimlo bod y trefniadau presennol yn ddigonol ac yn addas i'r diben. Er y gellid eu trosglwyddo, nodwyd nad yw Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 yn cynnwys darparwyr dynodedig penodol na chyrsiau rhan-amser.

- Yn y maes AU, mae prosesau llywodraethu sefydliadol SAU yn gwneud cyfraniad mawr at ddiogelu myfyrwyr a buddiannau cyhoeddus ehangach, ac mae angen i system reoleiddio ddiwygiedig adlewyrchu'r ffaith hon. Mae angen sicrhau parhad gwasanaethau ar gyfer dysgwyr, ac mae'n bwysig ystyried unrhyw effaith ar yr ardal leol.
- Dylai camau gweithredu gan y Llywodraeth gael eu hystyried yn ddewis olaf, yn enwedig felly unrhyw gamau yn ymwneud ag unrhyw allu yn y dyfodol i ddirymu teitlau dyfarnu graddau neu i ddiddymu sefydliadau. Mewn unrhyw achosion o'r fath, dylai argymhellion y Comisiwn gynnwys cynlluniau, sy'n cael eu llunio mewn ymgynghoriad â myfyrwyr, ynglŷn â sut y bydd yn diogelu hawliau myfyrwyr.
- Mae angen datgelu gwybodaeth yn briodol fel bod sefydliadau yn gallu herio dyfarniadau'r Comisiwn. Bydd angen diffinio diffyg ymarferoldeb, a bydd angen i arbenigwyr bennu dangosyddion synhwyrol mewn ymgynghoriad ag eraill dros gyfnod amser penodol.

[1] http://www.eua.be/activities-services/projects/past-projects/governance-autonomy-and-funding/designing-strategies-for-efficient-funding-of-higher-education-in-europe-(define)

- Roedd y mathau o fesurau diogelu a gynigiwyd yn cynnwys:
    - Gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar gadwyn gyflenwi sefydliadau
      Adroddiadau/mewnbwn y Corff Dyfarnu
      Sicrhau hyfywedd ariannol
    - Trefniadau llywodraethu priodol
    - Defnyddio parti proffesiynol annibynnol i asesu hyfywedd ariannol darparwyr 'llai dibynadwy'.
    - Dylai is-grŵp penodol o'r Comisiwn ac is-bwyllgor Llywodraeth Cymru ymdrin â'r mater hwn.
    - Cyfraniad posibl gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Diogelu buddiannau dysgwyr yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol

**Cwestiwn 8:**
Ydych chi'n cytuno bod angen cryfhau'r trefniadau i ddiogelu dysgwyr sy'n astudio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru?

**Cwestiwn 9:**
Os ydych chi, pa drefniadau y dylid eu rhoi ar waith i gefnogi dysgwyr na allant barhau i astudio eu cwrs gyda'r darparwr o'u dewis oherwydd bod y cwrs yn dod i ben, bod campws yn cau neu oherwydd methiant darparwr?

**Cwestiwn 10:**
A ddylai fod yn ofynnol i ddarparwyr sy'n cynnig cyrsiau addysg uwch sydd wedi'u dynodi i dderbyn cymorth statudol i fyfyrwyr yng Nghymru gynnwys cynlluniau diogelu myfyrwyr yn eu Cytundebau Deilliannau?

**Cwestiwn 8:**
- Mae angen sicrhau bod deddfwriaeth a risg yn gymesur a bod llais dysgwyr yn ganolog. Dylai'r system ganolbwyntio ar ddysgwyr – roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn credu bod y trefniadau AU presennol yn briodol fel llinell sylfaen. Roedd cefnogaeth eang i'r syniad bod myfyrwyr yn cael eu cynrychioli ar fyrddau. Nodwyd bod angen ffurfioli'r holl anghenion a'u cryfhau ledled y sector.
- Roedd rhai ymatebwyr yn credu bod trefniadau diogelu digonol eisoes ar waith mewn sefydliadau AU ac AB, ond nodwyd y gallai datblygu dull gweithredu cyson ym mhob sector fod yn fanteisiol.

**Cwestiwn 9:**
- Roedd teimlad cryf ymysg ymatebwyr bod angen i'r comisiwn/darparwr newydd ystyried unrhyw rwystr sy'n cael ei achosi gan fethiant ac na ddylai unrhyw ddysgwr fod o dan anfantais mewn unrhyw ffordd – naill ai oherwydd costau teithio neu fynediad i ddarpariaeth.

**Cwestiwn 10:**
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, ond roedd rhai'n credu y dylai cynlluniau diogelu gynnwys dysgwyr o bob math ac nid dim ond y rhai sy'n dilyn cyrsiau sy'n derbyn cyllid myfyrwyr.

- Ni chafwyd consensws ynglŷn ag a ddylai hyn fod yn rhan o gytundeb deilliannau ai peidio.
- Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn credu mai'r angen i sicrhau bod dysgwyr yn gwybod natur y cynllun o'r dechrau yw'r ffactor pwysicaf. Mae'n werth datblygu'r model AU yng nghyd-destunau eraill, ond mae angen ymateb yn gymesur wrth weinyddu hyn, a bydd angen mesurau diogelu i sicrhau nad yw'n datblygu'n dasg rhy feichus.

## Cefnogi dysgwyr sy'n dymuno newid cwrs neu ddarparwr

| |
|---|
| **Cwestiwn 11:**<br>Pa gymorth sydd angen ei ddarparu ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno newid cwrs neu ddarparwr?<br><br>**Cwestiwn 12:**<br>Pa rôl, os o gwbl, y dylai'r Comisiwn newydd ei chael o ran sicrhau bod trefniadau ar waith i hwyluso trefniadau trosglwyddo myfyrwyr a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r trefniadau hyn ymysg dysgwyr? |

**Cwestiwn 11:**

- Y thema gryfaf mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd yr angen i ddarparu cyngor ac arweiniad trylwyr ac annibynnol i ddysgwyr.
- Hefyd, roedd ymatebwyr yn awyddus i sicrhau bod dysgwyr yn trosglwyddo'n effeithiol ledled y sector PCET.
- Nodwyd y pwysigrwydd o rannu data a dysgu blaenorol ledled y sector.
- Cronfa ddata gwybodaeth – gallai'r Comisiwn gyflawni swyddogaeth froceriaeth o bosibl.
- Mae angen cryfhau'r broses o ddarparu cyngor ac arweiniad.

**Cwestiwn 12:**

- Nodwyd bod gofynion derbyn/amserlennu ac ati cyrff dyfarnu yn gymhleth.
- Dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am oruchwylio a chynnwys trefniadau mewn cytundebau deilliannau.
- Dylai'r Comisiwn gyfrannu at y gwaith o ddarparu canllawiau ymarfer gorau.

## Rheoli Cwynion Dysgwyr

| |
|---|
| **Cwestiwn 13:**<br>A oes angen cyflwyno trefniadau datrys cwynion ar gyfer dysgwyr yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol os nad ydynt yn gallu gwneud cwyn i gorff annibynnol ar hyn o bryd?<br><br>Os felly, pa drefniadau datrys cwynion sydd angen eu rhoi ar waith ar gyfer dysgwyr ledled y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol? |

**Cwestiwn 13**:

Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno bod angen un corff sy'n ymdrin â chwynion yn ymwneud â darpariaeth o bob math. Fodd bynnag, nodwyd bod angen dulliau gweithredu gwahanol o bosibl ar gyfer elfennau gwahanol darpariaeth.

- Nid oes un ateb syml i bawb, ond mae angen sefydlu'r egwyddor sylfaenol o driniaeth gyfartal ar gyfer dysgwyr o bob math.
- Roedd adborth gan y rhan fwyaf o ysgolion yn nodi bod angen ymdrin â chwynion o dan drefniadau llywodraethu ysgolion, Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru ac achosion cyfreithiol ffurfiol, yn y drefn honno.
- Mae elfennau o'r system gwynion bresennol yn cael eu hystyried yn annheg i ddysgwyr gan fod trefniadau gwahanol ar waith ledled PCET.
- Mae angen ystyried a oes modd ymestyn a/neu gryfhau trefniadau presennol.

## Sicrhau a Gwella Ansawdd

**Cwestiwn 14:**
Pa fodelau y gallai'r Comisiwn eu defnyddio i greu Fframwaith Sicrhau Ansawdd sy'n cwmpasu darpariaeth o bob math?

**Cwestiwn 15:**
A ddylai gwella ansawdd fod yn nodwedd allweddol o Fframwaith Sicrhau Ansawdd y Comisiwn?

**Cwestiwn 14:**
Cafwyd amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Nid oedd rhai ymatebwyr yn dymuno newid y trefniadau presennol gan eu bod yn teimlo bod y systemau sicrhau ansawdd sydd eisoes ar waith yn llwyddo'n dda. Roedd eraill yn teimlo y byddai system sicrhau ansawdd gyffredin yn ddymunol, ond y byddai'n anodd ei chyflwyno'n ymarferol oherwydd bod rhannau gwahanol o'r sector yn amrywio gormod.

- Awgrymwyd y gellid sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ganolbwyntio ar y posibilrwydd o ddatblygu system sicrhau ansawdd gyffredin ar gyfer PCET. Hefyd, awgrymwyd y dylid edrych ar ddull gweithredu'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn yr Alban a gwaith yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac Estyn ym maes prentisiaethau gradd.
- Gellid cadw prosesau Sicrhau Ansawdd ar wahân ar gyfer y sectorau gwahanol ond rhoi swyddogaeth oruchwylio i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru wrth bennu rhai o'r meini prawf. Gallent helpu i bennu cylch gwaith Estyn yn y dyfodol.
- Bydd angen sicrhau bod unrhyw fodel yn addas i ysgolion (os yw lleoliadau chweched dosbarth yn cael eu cynnwys), colegau, lleoliadau dysgu seiliedig ar waith a phrifysgolion. Gellid cytuno ar ddeilliannau dymunol cyffredin.

**Cwestiwn 15:**
Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid y syniad hwn, a gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Gallai hwn fod yn gyfle da i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r gweithle fel rhan o'i ddysgu proffesiynol yn y broses hon ac yn unol â'r safonau proffesiynol a ddiwygiwyd yn ddiweddar ar gyfer athrawon a'r rhai sy'n gweithio ym meysydd AB a dysgu seiliedig ar waith.
- Gallai fframwaith sy'n galluogi athrawon ac ymarferwyr i ymgysylltu'n ffurfiannol â'r heriau fod yn ddefnyddiol wrth i'r Comisiwn gychwyn ei waith.

- Roedd rhai undebau yn credu bod angen canolbwyntio mwy ar wella mewnbynnau fel dysgu proffesiynol ar gyfer darlithwyr nag ar fesur allbynnau/deilliannau.

## Sicrwydd Ariannol a Llywodraethu

**Cwestiwn 16:**
Rydym yn croesawu safbwyntiau ar rôl y Comisiwn yn y dyfodol yn ymwneud â phrentisiaethau yng Nghymru. Yn benodol, byddem yn croesawu safbwyntiau ar ba newidiadau posibl y gellid eu gwneud i'r system brentisiaethau yng Nghymru y mae Deddf 2009 yn darparu ar ei chyfer.

**Cwestiwn 16:**
Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid y cwestiwn hwn, ond pwysleisiwyd bod angen ystyried materion trawsffiniol.

- Awgrymwyd y gellid disodli'r dull caffael presennol â system cofrestru darparwyr.
- Byddai angen diwygio Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 er mwyn sicrhau llwyddiant.
- Awgrymwyd y gallai'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru gyflawni'r un swyddogaeth â Sefydliad Prentisiaid Lloegr.
- Byddai angen adolygu ac ad-drefnu fframweithiau er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion busnesau a'r sector PCET cyfan. Gallai adolygiad blynyddol sy'n cynnwys busnesau allweddol ym mhob sector fod yn werthfawr.
- Yn ôl rhai ymatebwyr, ystyr prentisiaethau yw 'gwaith gyda rhywfaint o hyfforddiant' yn hytrach nag 'addysg gyda rhywfaint o brofiad gwaith'.
- Cyfeiriwyd at *Remaking Apprenticeships* (2015)[2] a'r angen i'w ystyried yn y gwaith hwn.

## Rheoli Perfformiad a Risg

**Cwestiwn 17:**
Ydych chi'n credu bod y cynigion uchod ar gyfer monitro perfformiad a sicrhau atebolrwydd ledled y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn ddigonol ac yn briodol?

**Cwestiwn 18:**
Beth arall y gellid ei wneud i sicrhau bod y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru yn cael ei chynnal mewn ffordd gynaliadwy yn fwy hirdymor?

**Cwestiwn 17:**
Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion, ond nododd sawl ymatebydd na ddylid defnyddio'r data i greu 'tabl cynghrair' o sefydliadau.

**Cwestiwn 18:**
Roedd y prif ymateb yn cyfeirio at yr angen i sicrhau bod y system yn hwyluso cynllunio hirdymor. Awgrymwyd y dylai'r Comisiwn hyrwyddo cydweithio, nodi unrhyw fylchau a nodi

[2] https://www.cityandguilds.com/news/February-2015/remaking-apprenticeships

unrhyw feysydd lle mae angen darparwyr newydd. Hefyd, roedd angen iddo gydgysylltu trafodaethau rhwng darparwyr er mwyn datrys achosion o ddyblygu darpariaeth.

## Ymchwil ac Arloesi

**Cwestiwn 19:**
Ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu pwyllgor o'r Comisiwn â'r teitl Ymchwil ac Arloesi Cymru?

**Cwestiwn 20:**
Ydych chi'n cytuno y dylai Ymchwil ac Arloesi Cymru weithredu yn unol â'r hyn a nodir uchod er mwyn datblygu capasiti a gallu ymchwil ac arloesi yng Nghymru?

**Cwestiwn 19:**
Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno y dylid sefydlu pwyllgor sydd â'r diben arfaethedig i fod yn rhan o'r Comisiwn newydd. Nodwyd y gallai hyn fod yn ffordd effeithiol o sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli yng ngweddill y DU ac yn rhyngwladol, ond er bod nifer fawr o fanteision posibl wedi'u nodi, cyfeiriwyd at bryderon sydd angen eu hystyried ymhellach. Roedd ymatebwyr yn croesawu'r datganiad yn ymrwymo i ymreolaeth sefydliadol ac egwyddorion Haldane. Mynegwyd safbwyntiau amrywiol ynglŷn â statws y pwyllgor. Awgrymwyd y dylai'r pwyllgor fod â'i hunaniaeth a'i rôl statudol ei hun, ond na ddylai gael strwythur neu statws llywodraethu ar wahân. Roedd eraill yn pryderu am y posibilrwydd y bydd Ymchwil ac Arloesi Cymru yn meddu ar strwythurau llywodraethu, llywio a rheoli gwahanol i'r Comisiwn.

<u>Manteision canfyddedig</u>

- Byddai corff goruchwylio gwrthrychol ar gyfer ymchwil ac arloesi yn ddefnyddiol, a byddai'n helpu i gadw cysylltiad rhwng ymchwil ac addysgu os yw'r cylch gorchwyl a'r aelodaeth yn ddigon cynhwysol.
- Byddai un corff yn helpu i oruchwylio datblygiadau cymhleth mewn rhannau eraill o'r DU ac yn gallu gwneud argymhellion i'r Comisiwn ynglŷn â sut i ddyrannu cyllid ar gyfer ei flaenoriaethau amrywiol. Gallai helpu i osgoi'r peryglon i Gymru sy'n deillio o HERA 2012.
- Bydd proses lywodraethu ar wahân yn golygu bod Ymchwil ac Arloesi Cymru yn gallu ymgysylltu a chydweithio'n uniongyrchol â Research England ac Ymchwil ac Arloesi yn y DU, gan ddylanwadu ar bennu blaenoriaethau ar gyfer ffrydiau ariannu ymchwil a strategaeth y DU, a helpu i sicrhau bod Ymchwil ac Arloesi yn y DU yn diwallu anghenion rhanddeiliaid Cymru.
- Gallai'r pwyllgor helpu i ddatblygu natur gydweithredol Cymru gan sicrhau bod sefydliadau ymchwil llai o ran maint yn derbyn cymorth.
- Gallai greu cyfle i fuddsoddi mwy mewn ymchwil Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM).
- Bydd yn helpu i ddatblygu agwedd fwy dynamig ac ymatebol at feysydd ymchwil, arloesi a throsglwyddo gwybodaeth yng Nghymru.
- Byddai cysylltiad agosach rhwng Cyngor Cynghori ar Wyddoniaeth Cymru a Chyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi yn gwneud synnwyr strategol, gan sicrhau bod modd i ni gynnal strwythurau, prosesau a systemau gwahanol iawn.

- Bydd yn helpu i ‘baratoi ar gyfer y strwythurau, y systemau, y sgiliau a’r buddsoddiad priodol sydd eu hangen i gryfhau a datblygu’r ecosystem arloesi’.
- Byddai’n sicrhau bod cyllid ymchwil yn cael ei ddosbarthu’n fwy teg ymysg SAU ledled Cymru, gan sicrhau cysondeb.

Pryderon/Problemau

- Mae angen ailystyried swyddogaeth Ymchwil ac Arloesi Cymru er mwyn ystyried gallu’r sector AB i gyfrannu at ymchwil ac arloesi ym maes ymchwil gymhwysol.
- Dylid osgoi dyblygu rôl Ymchwil ac Arloesi yn y DU yng Nghymru a gweithio i ategu ei waith.
- Mynegwyd pryder ynglŷn ag anallu Cymru i groesi’r ‘dyffryn marwolaeth’ a’r ffaith ein bod yn methu troi ymchwil ragorol yn masnacheiddio, cyfoeth a chyfle economaidd.
- Roedd rhai ymatebwyr o’r farn fod angen i aelodaeth y pwyllgor arfaethedig fod yn ehangach, gan gynnwys, o bosibl, cynrychiolwyr o bedwar rhanbarth Cymru; SAU unigol; undebau myfyrwyr; cynrychiolwyr o’r byd diwydiant ac eraill sy’n rhan o’r sector addysg ôl-16. Mae angen i’r pwyllgor fod â hunaniaeth a rôl unigryw, ond gallai strwythur llywodraethu ar wahân arwain at ddyblygu gwaith.
- Mynegwyd llawer o bryderon ynglŷn â Brexit a’i effaith bosibl ar gyllid ymchwil ar gyfer Cymru.
- Roedd rhai ymatebwyr yn credu bod ymchwil ac arloesi yn feysydd ar wahân a bod angen strwythurau, amgylcheddau a chymorth gwahanol iawn arnynt. Er eu bod yn dibynnu ar ei gilydd, mae’n rhaid cydnabod bod angen eu gwahanu i ryw raddau. Cyfeiriodd eraill at yr angen i gyflwyno mesurau diogelu i sicrhau nad oes gwahanu deuol rhwng ymchwil ac arloesi.
- Mae’n bwysig cadw’r system cymorth cyllido ddeuol.
- Mae’n bwysig sicrhau bod mentrau fel Sêr Cymru yn parhau.
- Bydd y broses o gyflwyno system gyllido newydd ar gyfer ymchwil ôl-raddedigion yn cyflwyno system gyllido dair rhan rhwng y llywodraeth, y darparwr a sefydliadau preifat neu sefydliadau’r trydydd sector. Bydd angen i’r trefniadau ystyried hawliau dysgwyr. Bydd sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cynrychioli yn y pwyllgor newydd yn cynorthwyo’r broses hon.
- Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo bod angen ystyried canlyniadau Adolygiad Reid pan fyddant ar gael.
- Nodwyd bod CCAUC eisoes yn meddu ar bwerau i sefydlu pwyllgorau a bod pwyllgor ymchwil ac arloesi effeithiol eisoes yn bodoli. Trwy wneud addasiadau bach, gellid defnyddio hyn i fodloni gofynion y dyfodol a gallai Llywodraeth Cymru ychwanegu at ei rhestr o swyddogaethau gan ddefnyddio deddfwriaeth bresennol.

**Cwestiwn 20:**

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno â’r cynigion ar gyfer Ymchwil ac Arloesi Cymru ac yn cytuno y byddent yn helpu i ddiwallu anghenion dysgwyr a diwydiant.

Manteision canfyddedig

- Byddai’n helpu i ddatblygu gweithlu medrus sy’n gallu cystadlu yn rhyngwladol.
- Byddai’n helpu i wella llais a rhyngweithio dysgwyr â chyflogwyr a cholegau er mwyn datblygu’r cymwysterau priodol ar gyfer anghenion diwydiant/y farchnad lafur.
- Cam ymlaen i efelychu’r ymchwil yn Lloegr.
- Awgrymwyd y gallai helpu i gyflwyno dulliau ariannu er mwyn ymateb i heriau Prawf o Gysyniad/Dyffryn Marwolaeth.

- Roedd croeso i'r ymrwymiad i'r system cymorth deuol ar gyfer ymchwil ac i gadw cyllid ymchwil o ansawdd da heb ei neilltuo yn benodol.
- Mae angen ystyried strategaethau rhanbarthol perthnasol yn unol â'r pwyslais cynyddol ar waith rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol, gan helpu i sicrhau bod cyllid yn cael ei roi yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru y cytunwyd arnynt yn y cynllun strategol.
- Mae angen cynnwys ysgolion gan mai ychydig iawn o wybodaeth am gyfleoedd arloesi a phrentisiaethau sy'n cyrraedd ysgolion.
- Dylid manteisio ar y cyfle i gydgysylltu ymchwil ac arloesi, er bod angen strwythurau, sgiliau a systemau gwahanol ar y ddwy ddisgyblaeth.
- Mae ehangu mynediad a gwella amrywiaeth yn bwysig yn y sector ymchwil ac arloesi.
- Mae gan y Comisiwn newydd gyfle i weithredu mewn ffordd holistaidd ym maes strategaeth ymchwil ac arloesi AU ac AB yng Nghymru, gan herio darparwyr i fabwysiadu dulliau gweithredu mwy strategol.
- Croesawyd dull gweithredu sector cyfan o gyllido arloesi yng Nghymru.

Pryderon/Problemau

- Mynegwyd pryderon y byddai Ymchwil ac Arloesi Cymru ond yn canolbwyntio ar ymchwil AU ac ad-drefnu prosesau a chyllid addysg uwch presennol ar gyfer ymchwil ac arloesi. Mae angen ystyried AB a'i chyfraniad posibl hefyd.
- Mae angen cofio rhyngweithio pwysig Cyrff Sgiliau Sector ar draws y pedair gwlad a'u cyfraniad pwysig at ymgysylltu â myfyrwyr anodd eu cyrraedd a chyflogwyr.
- Mae angen cydnabod rôl Sêr Cymru I a II yn darparu cyllid ar gyfer ymchwilwyr yng Nghymru.
- Dylai cyllid ar gyfer ymchwil yn y dyfodol gyflawni amcanion strategol clir ac ni ddylai fod yn gyllid 'dull ymateb cyffredinol', y mae modd ei ddarparu trwy ddulliau'r DU gyfan.
- Mae angen cysylltiadau clir, a chydweithio posibl, ag ymchwil sectorau eraill h.y. Gofal Cymdeithasol Cymru.
- Mynegwyd pryderon ynglŷn â sut y bydd un pwyllgor ymchwil ac arloesi yn gallu cefnogi dwy elfen y system cymorth deuol.
- Rhybuddiwyd yn erbyn gosod targedau ar lefelau is ac ailadrodd y dull presennol o drosglwyddo'r holl dargedau yn uniongyrchol i bob prifysgol gan danseilio rhyddid sefydliadol ac academaidd.
- Mae angen cydnabod ymchwil ac arloesi mewn cyd-destun byd-eang – nid yng nghyd-destun Cymru yn unig.
- Effaith Brexit a sut y bydd yn effeithio ar gyllid ymchwil ar gyfer Cymru.
- Mae angen sicrhau nad yw'r pwyllgor newydd yn amharu ar unrhyw gysylltiadau presennol rhwng sefydliadau â chyrff Ymchwil ac Arloesi yn y DU.
- Mae angen sicrhau bod SAU yn gallu parhau i gyfrannu at flaenoriaethau Ymchwil ac Arloesi yn y DU.
- Mae angen ystyried sefydliadau eraill fel Yr Arloesfa.
- Gallai helpu i fynd i'r afael â dyblygu gwaith yr arsyllfa sgiliau genedlaethol ac uned data Cymru.
- Bydd nifer y bobl y mae angen i Ymchwil ac Arloesi Cymru ymgysylltu â nhw yn ormod i lwyth gwaith a gallu cyfrifoldeb y pwyllgor.
- Mae angen cydweithio'n agos ag Ymchwil ac Arloesi yn y DU – ni fyddai'n fanteisiol i Gymru weithredu'n ynysig.

- Un o broblemau allweddol y pwyllgor newydd yw lefel yr ymgysylltu â defnyddwyr a'r cyhoedd.
- Dylai'r pwyllgor gefnogi a sefydlu cydweithio ym meysydd ymchwil ac arloesi ledled AB, dysgu seiliedig ar waith, cyflogwyr, sefydliadau AU ac mewn ysgolion.
- Llywodraethu a strwythur. Os yw'r elfennau hyn ar wahân, ni fydd modd manteisio ar aelodaeth a phrofiad y sector yng Nghymru, o ystyried y gwrthdaro buddiannau posibl pan fydd y Pwyllgor yn gwneud penderfyniadau ariannu.

## Ehangu mynediad a chyfranogiad yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol

**Cwestiwn 21:**
Pa gamau, os o gwbl, sydd angen eu cymryd i hyrwyddo rhagor o gyfranogiad yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, yn enwedig ymysg unigolion o grwpiau difreintiedig a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol?

**Cwestiwn 22:**
Sut y gallwn sicrhau bod mwy o fyfyrwyr sy'n perthyn i'r grwpiau hyn yn aros ar gyrsiau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ac yn eu cwblhau?

**Cwestiwn 21:**
Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno bod ehangu mynediad i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn broblem, ac awgrymwyd llawer o gamau gweithredu posibl. Roedd y rhan fwyaf o'r awgrymiadau yn ymwneud ag ariannu, dileu rhwystrau i ddysgu, cyngor ac arweiniad. Hefyd, fe gafwyd awgrymiadau ynglŷn â sut i ddatblygu dull strategol o ehangu mynediad a chyfranogiad ledled y sector cyfan.

<u>Cyllid</u>

- Mae angen rhagor o gyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi llwybr cyson sydd wedi'i nodi yn ôl i addysg a hyfforddiant ar gyfer unigolion o gefndiroedd difreintiedig.
- Mae angen cyllid ar gyfer hyfforddiant sy'n cynnig llwybrau AB a Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar gyfer ennill cymwysterau i'r rhai nad yw llwybrau prentisiaethau/dysgu seiliedig ar waith yn briodol.
- Dylid cynyddu'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer ysgolion babanod, cynradd ac uwchradd, gan ei fod yn allweddol bwysig i gynyddu diddordeb, dyheadau a deilliannau.
- Dylid ystyried cymorth ariannol sy'n dibynnu ar brawf modd – un hawliad addysg drydyddol gydol oes o bosibl. Mae angen buddsoddiad sylweddol cyson er mwyn helpu pobl i esgyn yr ysgol yn hytrach na'i chyrraedd yn unig.
- Mae angen cyllid mwy cyson ar gyfer llwybrau academaidd a galwedigaethol i fyfyrwyr, h.y. mae'r Grant Cymorth Arbennig ar gael i fyfyrwyr AU yn unig ar hyn o bryd.
- Mae Cynlluniau Ffioedd a Mynediad yn llwyddo ym maes AU a gellid eu hymestyn i rannau eraill o'r sector PCET. Mae angen edrych ar gyllid ar gyfer ehangu mynediad a chyfranogiad gan gynnwys monitro'r grant bloc yn erbyn yr amcanion ar gyfer amddifadedd.
- Mae'n hanfodol bwysig parhau â'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg a'r ymrwymiad i ddarparu cronfeydd ariannol wrth gefn digonol.

- Mae'r system ffioedd newidiol ar gyfer myfyrwyr rhan-amser wedi'i gwneud yn anos cefnogi myfyrwyr ag anableddau, ac nid oes modd darparu Lwfans i Fyfyrwyr Anabl sy'n astudio llai na 60 o gredydau.
- Mae angen dadansoddiad manwl o effaith y diwygiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar i gyllid cymorth ar gyfer myfyrwyr AU er mwyn canfod a ydynt yn gwella amrywiaeth ac yn ehangu mynediad.
- Dewisiadau a chyllid ar gyfer cyrsiau credydau byr hyblyg sy'n annog dysgwyr i ddilyn cyrsiau AU.
- Mae angen neilltuo cyllid i gefnogi dysgwyr rhan-amser a dysgwyr o bell, a'i ddarparu'n hirdymor, er mwyn hyrwyddo arloesi a datblygu yn y maes hwn.

<u>Dileu Rhwystrau i Ddysgu</u>

- Mae angen mynd i'r afael â phroblemau ym maes Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu hyder ac ysgogiad naill ai wedi'i dileu neu'n cael ei rhoi ar waith gan sefydliadau dan gontract yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae hyn yn gwneud llwybrau datblygu yn anodd iawn i SAU. Mae angen i waith partneriaeth gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn cydgysylltu nodau, gan fod symud yn uniongyrchol o'r maes Dysgu Oedolion yn y Gymuned i AU yn ormod o gam. Mae angen cyllid digonol dros fwy na dim ond blwyddyn er mwyn hwyluso cydweithio â phartneriaid.
- Mae angen ystyried effaith profion sgiliau hanfodol ar ddysgwyr sy'n poeni am ddychwelyd i'r byd addysg o bosibl.
- Byddai'r broses o ddarparu ystod lawn o gyrsiau llawn amser a rhan-amser yn ardal y dysgwr yn fanteisiol. Cyflwyno darpariaeth AU yn lleol mewn sefydliadau AB, gan gynnwys safbwynt strategol ar ddysgu rhan-amser.
- Mae angen datblygu darpariaeth gyffredin fel bod dysgwyr 14-16 oed yn gallu manteisio ar ddarpariaeth alwedigaethol mewn colegau AB ochr yn ochr â'u darpariaeth statudol yn yr ysgol – ffrwd i fwydo dysgu galwedigaethol yn y dyfodol. Nodwyd llwybrau datblygu clir i'r byd gwaith.
- Mentrau i sicrhau bod llais myfyrwyr yn cael ei glywed yn gyson a bod pryderon yn cael eu hadrodd.
- Mae angen gwneud mwy o waith gyda rhieni, gweithwyr cymorth mewn colegau ac asesu anghenion dysgwyr unigol.
- Mae angen rhoi'r gorau i geisio sicrhau cydraddoldeb rhwng darpariaeth academaidd a galwedigaethol. Yn hytrach, dylid hyrwyddo darpariaeth alwedigaethol a'i datblygu fel dewis amgen gwirioneddol i lwybrau academaidd.
- Mae angen mynd i'r afael â phroblemau a nodwyd ym maes prentisiaethau.
- Mae angen agweddau hyblyg at fynediad a darpariaeth, gan gynnwys anghenion Cymraeg ac ieithoedd eraill. Dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr sy'n cynnwys profiad dysgwyr fel un o nodweddion allweddol y broses werthuso.
- Dylid ymgysylltu â chyflogwyr er mwyn eu hannog i gefnogi gweithwyr cyflogedig â chymwysterau lefel is i ddatblygu mewn achosion lle gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar y cyflogwr a'r ardal economaidd. Dylai cyflogwyr gyfrannu at fentrau i adlewyrchu galw lleol.
- Dylid ystyried lleihau gofynion mynediad ym maes AU ar gyfer ymgeiswyr priodol.
- Mae angen mynd i'r afael â'r gostyngiad mewn darpariaeth cyrsiau rhan-amser a'r costau cysylltiedig. Gall hyn effeithio'n negyddol ar ddysgwyr hŷn.
- Mae gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr yn hanfodol er mwyn deall y rhwystrau i ehangu mynediad – mae myfyrwyr yn y sefyllfa orau i nodi'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag llwyddo yn y byd addysg.

- Rhaglenni allgymorth ysgolion, cyrsiau preswyl haf mewn prifysgolion a chynlluniau mynediad ôl-16.
- Mae Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd wedi cael llwyddiant mawr yn cynyddu cyfranogiad. Dylai prifysgolion adolygu eu gofynion mynediad safonol. Nid yw rhai cymwysterau AB yn addas i'r diben ac maent yn rhwystro dysgu blaengar.
- Mae angen cydweithio'n agosach â sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn diwallu eu hanghenion a nodi rhwystrau.
- Mynediad gwell i ofal plant ac addysg gymunedol.
- Sesiynau blasu anffurfiol, am ddim.
- Mae colegau AB wedi targedu pobl ifanc 16 -19 oed ar draul dysgwyr hŷn – mae'n bwysig bod cyrsiau rhan-amser ar gael i ddysgwyr hŷn.
  Roedd y sector AU yn arfer cynnal rhaglenni allgymorth llwyddiannus yn y gymuned, ond mae'r cyrsiau hyn yn cael eu cynnal ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol yn unig bellach.
- Mae angen cefnogi gwaith cyn 16 oed er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr y sgiliau sylfaenol sydd eu hangen arnynt.
- Mae angen systemau trafnidiaeth well neu gymorth i helpu dysgwyr i symud y tu allan i'w hardaloedd lleol.
- Dylai dysgwyr ag ADY allu dilyn cwrs sy'n diwallu eu hanghenion yn nes at eu cartrefi, ond os nad oes modd gwneud hyn, dylai'r Awdurdod Lleol dalu am leoliad y tu allan i'r sir.

<u>Cyngor ac Arweiniad Gyrfaoedd</u>

- Mae angen cyngor ac arweiniad gyrfaoedd o ansawdd ar ddisgyblion mewn addysg orfodol fel eu bod yn deall yr ystod lawn o ddewisiadau PCET sydd ar gael. Mae angen gwybodaeth am lwybrau datblygu o safbwynt sefydliadau, pynciau a chyfrwng iaith.
- Cyngor ar oblygiadau ariannol dewisiadau (benthyciadau i fyfyrwyr, enillion posibl yn y dyfodol).
- Mynegwyd pryderon na fydd pobl ifanc ag ADY ym meysydd dysgu seiliedig ar waith ac AU yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i ddilyn y cwrs o'u dewis, waeth pwy yw'r darparwr.
- Gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i unigolion gan grwpiau penodol.
- Ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu.
- Gwella'r gwaith hyrwyddo trwy leoliadau chweched dosbarth. Hefyd, gellid ymgorffori cyfranogiad mewn sgiliau cyflogaeth addysg a gyrfaoedd a pharhau i ddefnyddio'r dull o nodi anawsterau'n gynnar.

<u>Dull Gweithredu Strategol ledled y Sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol</u>

- Mae angen i ysgolion, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill fel Consortia Rhanbarthol ymateb a dangos sut y maent yn cefnogi'r strategaeth a gyflwynwyd gan y corff newydd.
- Fframwaith strategol cenedlaethol ar gyfer ehangu mynediad ym mhob sector o'r byd addysg, gan nodi grwpiau targed a dangosyddion perfformiad penodol.
- Polisïau i helpu i ddatblygu a darparu rhaglenni blwyddyn sylfaen.
- Ail-frandio'r sector cyfan a chynnal ymgyrchoedd hysbysebu a marchnata cenedlaethol gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol.
- Mae angen cydgysylltiad gwell â'r newidiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru. Byddai llawer o bobl ifanc yn manteisio ar ddewisiadau ehangach, y tu allan i lwybrau academaidd, gan osod y sylfaen ar gyfer dysgu galwedigaethol yn y dyfodol.

- Mae angen cadw a datblygu rôl bwysig CCAUC sy’n helpu i ehangu mynediad a chyfranogiad ledled y sector AU.
- Mae angen cynnwys yr ymgyrch Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach ac ystyried ei harbenigedd. Gellid cynnal adolygiad er mwyn gweithio’n fwy effeithiol yn rhanbarthol.
- Mae angen ystyried ymreolaeth AU i nodi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a’u cyd-destun ac wedyn llunio eu cynlluniau eu hunain.
- Gellid ymestyn dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a’r gofyniad i lunio cynllun cydraddoldeb strategol i bob darparwr AU ac AB, gan gynnig rhaglenni sy’n arwain at ddyfarniad cydnabyddedig.
- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu fframwaith a chyfeiriad newydd ar gyfer ehangu mynediad i feysydd AB a dysgu seiliedig ar waith. Gallai llawer o’r gweithgareddau sy’n cael eu cynnal gan y sector AU ar hyn o bryd gael eu cymhwyso er budd meysydd eraill yn y system.
- Cafwyd argymhelliad y dylid defnyddio deddfwriaeth bresennol i hyrwyddo rhagor o gyfranogiad gan nad oes angen deddfwriaeth newydd neu arwyddocaol i gryfhau trefniadau yn y sector AU.
- Mae angen datblygu’r broses o ehangu mynediad a chyfranogiad fel rhan o’r strategaeth a’r weledigaeth gyffredinol ar gyfer y system PCET, yn enwedig felly ers tranc Cymunedau yn Gyntaf.
- Dylid edrych ar arferion gorau ledled y DU, h.y. y Swyddfa dros Fynediad Teg yn Lloegr a’r Thema Gwella Pontio Myfyrwyr yn yr Alban.
- Mae angen datblygu fframwaith llwybrau datblygu clir rhwng AB, Dysgu Oedolion a Dysgu Seiliedig ar Waith i AU.
- Llwybrau datblygu i gyflogaeth o ansawdd, mynediad i’r proffesiynau, a menywod yn gweithio ym meysydd Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM).
- Gall rhaglenni fel Rhwydwaith Seren gynorthwyo myfyrwyr Safon UG neu A2 i wella eu ceisiadau UCAS/annog dyheadau i symud ymlaen i AU.
- Hyrwyddo amrywiaeth o yrfaoedd a herio stereoteipio.
- Nodi sut mae technoleg yn gallu helpu dysgwyr o bell/dysgu y tu allan i’r ystafell ddosbarth, gan helpu dysgwyr i gael mynediad i hyfforddiant.
- Lledaenu arferion gorau sydd eisoes yn bodoli trwy astudiaethau achos, cynadleddau ac ati.
- Mae darpariaeth ôl-16 o bob math yn cael ei chynllunio mewn fframwaith cydgysylltiedig sy’n cyd-fynd â darpariaeth cyn 16.

<u>Dadansoddi Data</u>

- Mae defnyddio data perfformiad allweddol tryloyw yn allweddol i nodi sefyllfaoedd sylfaenol a phennu targedau ar gyfer datblygiad (Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch/HeidiPlus).

**Cwestiwn 22:**

Cafwyd llawer o sylwadau ac awgrymiadau mewn ymateb i’r cwestiwn hwn, gan gynnwys syniadau cynllunio strategol a syniadau gweithredol. Maent yn perthyn i’r categorïau cyffredinol canlynol: cyllido, cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd, dull gweithredu strategol ar gyfer y sector PCET yn ei gyfanrwydd, gwell gwybodaeth a dadansoddiad data, dileu rhwystrau, a chamau i’w cymryd yn y sector PCET.

<u>Dull gweithredu strategol ar gyfer y sector PCET</u>

- Llwybrau datblygu clir i’r lefel dysgu nesaf a’r gweithlu.

- Sicrhau bod cadw myfyrwyr yn un o nodau unrhyw Gytundeb Deilliannau.
- Gallai system PCET fwy cydlynol sy'n cael ei goruchwylio gan un corff wella cysylltiadau rhwng darparwyr gwahanol a hyrwyddo dull gweithredu holistaidd er mwyn annog dysgwyr i fanteisio ar ddarpariaeth PCET a gwireddu eu potensial.
- Mae angen sector PCET integredig sy'n creu llwybrau addysg neu hyfforddiant cydgysylltiedig a mwy eglur ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn rhai traddodiadol.
- Mae angen fframwaith strategol sy'n nodi grwpiau targed ac yn cynnwys dangosyddion perfformiad i nodi cyfranogiad, ond sydd hefyd yn nodi gwybodaeth am fyfyrwyr sy'n cwblhau eu cyrsiau AB ac AU.
- Mae angen i'r Comisiwn gyflwyno strategaeth ar gyfer dysgu gydol oes.
- Datblygu cysylltiadau gwell â chyflogwyr er mwyn deall anghenion dysgu'r dyfodol yn well.
- Mae angen cynnig cyrsiau sy'n hyblyg o ran math, hyd a lefel, gan sicrhau bod modd trosglwyddo credydau rhwng cyrsiau a sefydliadau.
- Ymgysylltu ag ysgolion a cholegau er mwyn amlygu gwerth a chyfleoedd gyrfaoedd STEM.
- Byddai cymorth cyson ar gyfer partneriaethau rhanbarthol yn galluogi cyfranogwyr i barhau i roi prosiectau cydweithredol ar waith er mwyn cefnogi'r agenda ehangu mynediad.

<u>Cyllid</u>

- Defnyddio modelau cyllido cyrsiau sy'n cynnwys cymelldaliadau er mwyn sicrhau bod sefydliadau yn cadw dysgwyr ar raglenni.
- Rhagor o gyllid ar gyfer cymorth a mwy o oriau ar gyfer tiwtoriaid arbenigol os oes angen.
- Pecynnau cymorth ariannol.
- Mae cynlluniau Ffioedd a Mynediad presennol a chymorth ariannol i fyfyrwyr, yn enwedig ar gyfer costau byw, yn helpu i leihau rhwystrau i gyfranogiad.

<u>Cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd</u>

- Cyngor diduedd o ansawdd uchel ar yrfaoedd, a chyrsiau cynefino manwl er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn deall eu cyrsiau a'r hyn y maent yn gweithio tuag ato.
- Ymgysylltiad effeithiol ag ysgolion er mwyn sicrhau bod pob unigolyn yn dewis y llwybr dysgu/gyrfa mwyaf priodol.
- Sicrhau bod dysgwyr yn gallu dilyn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol mewn sefydliadau priodol ar lefel sy'n gweddu i'w gofynion a'u galluoedd.
- Gwella cyngor ac arweiniad cychwynnol, canolbwyntio ar gymorth rhaglenni a darpariaeth hyblyg er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.
- Mae gwybodaeth dda ar gael am ffioedd, benthyciadau a chostau ac amserlenni ad-dalu.

<u>Gwybodaeth/dadansoddi data</u>

- Mae'n rhaid i'r Comisiwn dderbyn adnoddau da er mwyn cyflawni rôl casglu data, tystiolaeth ac enghreifftiau o arferion da o ran cadw myfyrwyr o'r tu mewn/y tu allan i'r sector, gan weithio mewn partneriaeth gyda darparwyr trwy gefnogi, ariannu a galluogi'r broses o fabwysiadu dulliau arloesol.
- Byddai cynyddu lefelau cyfathrebu a gwella'r broses o rannu data myfyrwyr yn rhoi gwybodaeth fwy cywir i ddarparwyr am anghenion myfyrwyr er mwyn teilwra cymorth (yn debyg i argymhellion y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)).
- Mae angen defnyddio data'n well (e.e. dadansoddeg dysgu) er mwyn targedu ymyraethau/cymorth.

Dileu rhwystrau i ddysgu

- Ystyried polisïau a chymorth i hwyluso mynediad – e.e. gofal plant; cludiant; cymorth iechyd meddwl.
- Cynyddu'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer ysgolion babanod, cynradd ac uwchradd – bydd hyn yn cynyddu eu diddordeb, eu dyheadau a'u deilliannau mewn addysg orfodol a fydd yn parhau yn y sector PCET.
- Mae angen ystyried canolfannau lleol a chyrsiau rhan-amser yn ystod y dydd a gyda'r nos.
- Mae angen ystyried llwyth gwaith athrawon/darlithwyr gan fod hyn yn effeithio ar y cymorth y gallant ei roi i fyfyrwyr unigol wrth geisio ymdopi ag amserlenni llawn a phrinder amser ar gyfer paratoi ac asesu.
- Gwella mynediad i gyfleoedd dysgu, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer pobl hŷn. Mae angen datblygu prentisiaethau 'pob oedran' a chynlluniau cyflogadwyedd.
- Mae angen cyflwyno sesiynau sgiliau astudio a rhaglenni atgyfnerthu yn CA4 er mwyn mynd i'r afael â materion iechyd meddwl myfyrwyr yn ymwneud â gwaith, gan sicrhau bod hyn yn parhau yn y sector PCET.
- Mae cymorth mentora a thiwtor personol cadarn, ynghyd â gwasanaethau cymorth i ddysgwyr canolog yn hanfodol i gadw dysgwyr.
- Cymorth cadarn gan y gymuned dysgu a rhwng cymheiriaid.
- Mae angen cydnabod y rhwystrau penodol sy'n gallu wynebu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac ystyried sut i'w goresgyn (e.e. ystyried argymhellion a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Tlodi NUS y DU).
- Fforddiadwyedd addysg – costau cyrsiau; y deunyddiau a'r cyfarpar gofynnol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr hŷn ym maes AB.
- Mae angen mynd i'r afael ag amrywiaeth dysgwyr ôl-16, gan gynnwys pobl hŷn.
- Parhau â'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg – mae newidiadau i'r system yn effeithio ar fyfyrwyr ag anableddau gan nad yw'r Lwfans i Fyfyrwyr Anabl ar gael i fyfyrwyr â llai na 60 o gredydau.
- Diffyg hyder a hunan-barch - mentora.
- Cyrsiau byr â chefnogaeth ar gyfer athrawon yn ymwneud â gweithio gyda dysgwyr o grwpiau neu ardaloedd difreintiedig.

Camau Gweithredu Posibl:

- Cyflwyno mentrau (e.e. hyrwyddo gyrfaoedd STEM).
- Cyflwyno system ar gyfer mentora cymheiriaid.
- Datblygu dyheadau trwy ddangos esiamplau a phrofiadau cyflogwyr i ddysgwyr (profiad gwaith; interniaethau; prentisiaethau).
- Helpu i wella ansawdd dysgu ac addysgu. Mae addysgeg soffistigedig, athrawon o ansawdd uchel ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith yn allweddol er mwyn gwella'r tebygolrwydd o gadw dysgwyr.
- Hwyluso buddsoddiad mewn cyfleusterau campws a chymunedol gwell.
- Sicrhau bod rhaglenni cyrsiau yn cynnwys amser i ddatblygu sgiliau priodol yng nghyd-destun pwnc craidd y cymhwyster.
- Rhannu arferion da ledled y sector PCET (e.e. cynllunio'r cwricwlwm ac asesu, cymorth academaidd a bugeiliol).
- Gwella'r cymorth ar gyfer myfyrwyr sy'n ailsefyll.
- Rhagor o gydweithio ag ysgolion a cholegau er mwyn eu hannog i barhau i gefnogi dysgwyr sydd wedi gadael ond nad ydynt wedi symud ymlaen i waith neu astudio pellach.
- Cefnogi unigolion gan ddefnyddio rhaglenni atal cymdeithasol a gwasanaethau cymorth ieuenctid eraill.

## Mesur effaith

**Cwestiwn 23:**
Sut y gellir cryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ehangu mynediad ledled y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol?

**Cwestiwn 24:**
A ddylid gosod dyletswydd ar sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch i gyhoeddi data ar gyfraddau ymgeisio, derbyn a chynnydd myfyrwyr ar sail rhyw, ethnigrwydd a chefndir economaidd-gymdeithasol, a chyflwyno'r data i'r Comisiwn?

**Cwestiwn 23:**
Cafwyd cefnogaeth gref gan ymatebwyr i'r broses systematig o gasglu gwybodaeth a data ynghyd â'r angen am ymchwil gadarn i gefnogi'r sylfaen dystiolaeth a phenderfynu ar strategaeth PCET.

- Gwella dealltwriaeth o'r sector PCET a chanolbwyntio ar y sector cyfan, gan sicrhau bod y Comisiwn yn gallu dadansoddi arferion da posibl mewn ffordd strategol, a chynorthwyo/galluogi darparwyr i nodi dysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Hyrwyddo a derbyn adborth gan ddysgwyr (defnyddio grwpiau ffocws; arolygon).
- Ymgysylltiad effeithiol ag ysgolion er mwyn sicrhau bod pob unigolyn yn dewis y llwybrau dysgu/gyrfaoedd mwyaf priodol.
- Dylai'r Comisiwn gynnal ei waith ymchwil ei hun a defnyddio arbenigedd allanol i gasglu gwybodaeth (e.e. deall rhwystrau) ac adolygu'r gwaith ymchwil helaeth sydd wedi'i gwblhau yn ymwneud ag ehangu mynediad.
- Dadansoddi'r mentrau sydd wedi'u cwblhau hyd yma i nodi beth sy'n llwyddo neu'n methu (e.e. a oes unrhyw awdurdodau lleol, sefydliadau neu ddarparwyr yn cefnogi llwybrau galwedigaethol o gyfnodau cyn-16).
- Mynd i'r afael â'r broses o gasglu/rhannu data – defnyddio data yn well a gallu olrhain llwybrau dysgwyr (ystyried defnyddio rhif unigryw'r dysgwr i helpu i nodi dysgwyr ehangu mynediad yn ddienw. Mae rhywfaint o waith wedi'i wneud eisoes ar y mater hwn, e.e. Deilliannau Addysgol Hydredol sy'n cysylltu data AU â CThEM; Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru; Ymgyrraedd yn Ehangach). Cysylltiad posibl â Rhifau Yswiriant Gwladol, olrhain dysgwyr o 16 oed nes eu bod yn oedolion ifanc.
- Mae rhywfaint o'r sylfaen dystiolaeth hon eisoes yn bodoli trwy ddyletswydd cydraddoldeb a deddfwriaeth cydraddoldeb (e.e. Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol) - mae angen canolbwyntio ar newid dulliau gweithredu.
- Defnyddio dulliau, e.e. derbyniadau cyd-destunol, sy'n galluogi sefydliad i ystyried ffactorau sy'n effeithio ar gyrhaeddiad addysgol blaenorol ymgeiswyr a gwneud penderfyniadau yn ymwneud â derbyniadau sy'n seiliedig ar botensial ymgeiswyr i lwyddo.
- Gwybodaeth gliriach am fenthyciadau i fyfyrwyr ac ymrwymiadau ariannol a allai rwystro rhai darpar ddysgwyr o ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd.
- Darparu cymorth i ddysgwyr – e.e. mynediad i addysg leol i leihau teithio.
- Nodi metrigau allweddol a chyflwyno proses cipio data systematig i fonitro effaith, gan sicrhau bod dysgwyr a dulliau darpariaeth o bob math wedi'u cynnwys (wyneb yn wyneb; rhan-amser; dysgwyr o bell; dysgwyr aeddfed).
- Defnyddio datblygiad, hyfforddiant (e.e. rhagfarn anymwybodol) ac arweiniad staff i sicrhau bod darparwyr yn rhoi arferion ehangu mynediad ar waith.

- Gweithio gyda sefydliadau fel Chwarae Teg, Stonewall Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, sy'n canolbwyntio ar grwpiau penodol.
- Parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau; cydnabod 'amrywiaeth amrywiaeth' er mwyn hwyluso ymyriadau wedi'u targedu.
- Defnyddio arolygon archwilio thematig er mwyn canolbwyntio ar ymarfer effeithiol ym maes ehangu mynediad.

**Cwestiwn 24:**
Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion ac yn credu bod angen cynlluniau strategol i gynyddu mynediad, archwilio problemau a dileu rhwystrau.
Nodwyd rhai amodau/awgrymiadau:

- Mae angen ymgynghori'n llawn â sefydliadau ar fathau, fformat ac amserlenni darpariaeth data.
- Mae angen cydraddoldeb ledled y sector PCET er mwyn galluogi cymhariaeth deg.
- Mynegwyd pryderon bod y sector AU eisoes yn cyhoeddi data ar geisiadau, derbyniadau a chyfraddau datblygiad myfyrwyr trwy UCAS a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), ac y gallai'r angen i gasglu data ychwanegol roi rhagor o faich gweinyddol ar sefydliadau.
- Fodd bynnag, roedd un SAU yn teimlo bod UCAS eisoes yn cyhoeddi data ar geisiadau a derbyniadau ar gyfer darparwyr AU ar sail rhyw, ethnigrwydd a chefndir economaidd-gymdeithasol. Byddai'n hawdd defnyddio data HESA i gael gafael ar ddata datblygiad, a'i gyhoeddi ar ran y sector wedyn heb ormod o faich ychwanegol.
- Mae'n bwysig bod y sector AB yn casglu gwybodaeth drwy Rif Unigryw'r Dysgwr mewn ffordd debyg i'r sector AU fel bod modd cymharu data â gweddill y DU.
- Mae angen datblygu Rhif Cyffredinol y Dysgwr (ULN) yn well er mwyn olrhain datblygiad dysgwyr, gan gyfuno hyn â datblygiad sy'n gysylltiedig â Rhifau Yswiriant Gwladol.
- System awtomatig sy'n arbed amser i sefydliadau.
- Mae llawer o ddata eisoes yn cael ei gipio o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.
- Cynyddu'r defnydd o baru data ar draws setiau data er mwyn gwella gwaith dadansoddi ac osgoi gofyn i ddarparwyr ddychwelyd data sydd eisoes wedi'i ddarparu yn rhywle arall. Mae'n bosibl y bydd angen deddfwriaeth ar gyfer hyn.
- Dylai dyletswyddau data ychwanegol gyd-fynd â systemau presennol er mwyn osgoi gwneud addasiadau drud i systemau cofnodi.
- Cyfyngiadau technegol i ddarparu rhywfaint o'r data.
- Y broblem sy'n deillio o dderbyn data gan ddysgwyr sy'n ymgeisio ond nid yn ymrestru gan fod yr eitemau yn nodweddion gwarchodedig. Mae'r broblem hon yn berthnasol iawn i ddata economaidd-gymdeithasol.
- Dylai data gael ei gyhoeddi yn ganolog yn hytrach nag yn unigol gan y darparwr.
- Trosglwyddo data hanesyddol gan gyrff fel CCAUC a Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn newydd, gan gynnwys hysbysiadau diogelu data ar gyfer myfyrwyr.
- Rhannu data rhwng cyrff cyhoeddus a darparwyr er mwyn adnabod dysgwyr agored i niwed a'u helpu i ddatblygu.
- Mae CCAUC yn argymell y dylai data gael ei ddarparu i'r Comisiwn ac y dylai'r Comisiwn fod â phwerau statudol yn ymwneud â chasglu data.
- Bydd angen nodi cyd-destun y data er mwyn ystyried ei bod yn anos recriwtio/datblygu rhai myfyrwyr.
- Mae angen canllawiau clir a diamwys er mwyn sicrhau bod y gwaith crynhoi data yn ddilys ac yn ystyrlon.
- Mae angen mesurau diogelu er mwyn gwarantu cyfrinachedd dysgwyr.

Awgrymiadau ar gyfer data ychwanegol

Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai casglu data ychwanegol yn ddefnyddiol, gan ganolbwyntio ar y canlynol o bosibl:

- Oedran
- Ffydd
- Sgiliau Cymraeg/iaith gyntaf
- Anabledd
- Statws LGBT
- Data gwerth ychwanegol
- Cyflawniad rhannol
- Dysgwyr â chyfrifoldebau gofal
- Y rhai sy'n gadael gofal
- Cyn troseddwyr
- Y gymuned Sipsiwn a Theithwyr
- Myfyrwyr ADY
- 'Cyrchfannau' myfyrwyr ar ôl cwblhau eu cyrsiau.

Nodwyd y rhesymau canlynol gan y rhai a oedd yn llai cefnogol i'r cynigion:

- Mae'r sector AB a Dysgu Seiliedig ar Waith eisoes yn casglu'r data hwn ar gyfer eu hadroddiadau cydraddoldeb blynyddol. Ni fyddent yn argymell adroddiad arall, ond yn hytrach, maent yn awgrymu y dylid safoni mathau, fformat ac amserlenni darpariaeth data.
- Nid oes unrhyw reidrwydd ar ddysgwyr i ddarparu data, felly mae'n bosibl y bydd gwybodaeth sy'n cael ei darparu gan sefydliad yn anghyflawn.
- Mae data HESA eisoes ar gael, ac roeddent am i'r data hwn gael ei ddefnyddio yn y lle cyntaf er mwyn osgoi rhoi beichiau ychwanegol ar sefydliadau.

## Lleoliadau chweched dosbarth

**Cwestiwn 25:**

A ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am gynllunio, cyllido a monitro darpariaeth chweched dosbarth? Os felly, beth yw eich rhesymau?

**Cwestiwn 26:**

A ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn gyflawni unrhyw swyddogaeth arall mewn perthynas â darpariaeth chweched dosbarth, er enghraifft, cofrestru darparwyr, sicrhau a gwella ansawdd, a llywodraethu? Os felly, nodwch eich rhesymau.

**Cwestiwn 27:**

A ydych chi'n credu y byddai'n well sefydlu'r Comisiwn heb gynnwys darpariaeth chweched dosbarth yn ei gylch gwaith, gyda'r opsiwn o wneud hynny'n ddiweddarach?

**Cwestiwn 25:**

Cafwyd ymatebion gwahanol i'r cwestiwn hwn, gan ddibynnu'n bennaf ar safbwynt y rhanddeiliad. Nodwyd yn gyffredinol y byddai cynnwys darpariaeth chweched dosbarth yn arwain at heriau deddfwriaethol a gweinyddol.

Rhesymau dros gynnwys darpariaeth chweched dosbarth:

- Byddai'n cydnabod yr angen am un sector PCET sy'n cynnwys darpariaeth chweched dosbarth ac yn rhannu'r un safonau ledled y sector.
- Mae angen cysylltiad cryf rhwng darpariaeth chweched dosbarth a llwybrau dysgu AU ac AB, a statws cyfartal ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ac academaidd.
- Dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am y gwaith cynllunio, ariannu a monitro er mwyn sicrhau bod y broses hon yn diwygio ac yn cynllunio ar gyfer y sector PCET yn ei gyfanrwydd.
- Mae angen system integredig y gellir ei chymharu â systemau eraill er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn gallu gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am y llwybrau sy'n addas iddynt.
- Mae hepgor lleoliadau chweched dosbarth yn gwahanu dysgwyr ôl-16 mewn ffordd artiffisial, er bod rhai ohonynt yn astudio'r un cymwysterau. Mae'n creu system dwy haen hefyd.
- Nid yw'r broses hon yn diwygio'r sector PCET mewn gwirionedd os nad yw'n cynnwys lleoliadau chweched dosbarth. Trwy gynnwys lleoliadau chweched dosbarth, mae'r sector yn gallu cydweithio ag eraill i wella'r broses o bontio o'r chweched dosbarth i addysg uwch.
- Dylai ysgolion rannu'r un lefel o atebolrwydd i Lywodraeth Cymru, dysgwyr, rhieni a chyflogwyr â SAB a darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith. Gallai eu cynnwys annog ysgolion i gydweithio mwy er budd pennaf y dysgwr.
- Mae angen cydgysylltu gweithgareddau er mwyn datblygu ymateb cyfunol a sicrhau bod y system addysg yn cydweithio i gefnogi anghenion economaidd a chymdeithasol.
- Mae'n lleihau achosion o ddyblygu gwaith, tanberfformiad a chystadleuaeth.

<u>Rhesymau dros hepgor darpariaeth chweched dosbarth:</u>

- Mae cyrff llywodraethu ysgolion eu hunain yn gwybod llawer am eu hysgolion a'u disgyblion. Ni fyddai corff sy'n bell i ffwrdd yn darparu'r un lefel o ofal a threfniadaeth.
- Dylai'r Cynulliad fod yn gyfrifol am y ddarpariaeth.
- Mae angen parhau i wahaniaethu rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol er mwyn manteisio ar gryfderau pob sector. Dylai'r sector AB fod yn gyfrifol am astudiaethau galwedigaethol a dylai ysgolion fod yn gyfrifol am gyrsiau Safon Uwch.
- Dylai lleoliadau chweched dosbarth gael eu rheoli gan awdurdodau lleol o hyd, ond dylai anghenion dysgwyr fod yn ganolog i hyn er mwyn sicrhau bod dysgu cymunedol ar gael iddynt.
- Gallai gynyddu haenau biwrocratiaeth, gan wneud llinellau atebolrwydd yn fwy aneglur a lleihau adnoddau yn y man darparu.
- Ni fyddai gan y Comisiwn yr arbenigedd na'r wybodaeth sefydliadol i wneud penderfyniadau ynglŷn â darparwyr. Dylai'r trefniadau presennol ategu gwaith y Comisiwn, a fydd yn wynebu digon o heriau heb gynnwys darpariaeth chweched dosbarth.
- Mae ysgolion eisoes yn cael eu goruchwylio'n ddigonol.
- Mae cysylltiad agos rhwng darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion 11-18 oed a gwaith cynllunio, cyllido, staffio a monitro, ac elfennau 11-16 ysgolion.

**Cwestiwn 26:**

Cafwyd mwy o ymatebion cadarnhaol na negyddol i'r cwestiwn hwn, ond yn yr un modd â'r cwestiwn blaenorol, roedd safbwynt penodol y rhanddeiliaid yn rhannol gyfrifol am hyn. Nodwyd rhai manteision ac anfanteision.

- Mae angen sicrhau cydraddoldeb a chysondeb rhwng sefydliadau sy'n cynnig yr un cymwysterau.
- Dylai myfyrwyr sy'n astudio mewn lleoliadau chweched dosbarth gael eu diogelu yn yr un ffordd â myfyrwyr sy'n astudio mewn lleoliadau eraill.
- Mae angen cynnwys pob sector yn y diwygiadau er mwyn sicrhau statws cyfartal ar gyfer cymwysterau academaidd a galwedigaethol.
- Dylid parhau i gynnal arolygiadau annibynnol allanol o ddarpariaeth chweched dosbarth ysgolion er mwyn rhoi barn ddiduedd ar ansawdd nad yw'n gysylltiedig ag ystyriaethau cyllid.
- Mae ysgolion yn wynebu digon o feichiau gweinyddol eisoes.
- Mae'r swyddogaethau arfaethedig ar gyfer y Comisiwn yn bodoli eisoes, a byddai rôl y Comisiwn yn cynyddu biwrocratiaeth ac yn gwneud atebolrwydd yn fwy aneglur.
- Bydd gwahaniaethau'n parhau os nad yw darpariaeth chweched dosbarth yn rhan o'r diwygiadau.

**Cwestiwn 27:**

Cafwyd ystod o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd llawer o'r rheini a oedd yn anghytuno yn gwneud hynny am mai nhw oedd yr ymatebwyr a oedd yn dadlau y dylai darpariaeth chweched dosbarth gael ei chynnwys o'r cychwyn cyntaf.

- Dylai darpariaeth chweched dosbarth gael ei chynnwys o'r cychwyn cyntaf, i sicrhau bod proses diwygio'r system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn cael ei dylunio'n briodol ac yn addas i'r diben ar gyfer y sector cyfan.
- Er bod heriau anodd os yw darpariaeth chweched dosbarth i gael ei chynnwys, mae angen mynd i'r afael â'r rhain yn awr yn hytrach na'u hosgoi ac ni allant fod yn rheswm dros beidio â chynnwys darpariaeth chweched dosbarth.
- Dylai darpariaeth chweched dosbarth barhau yn y strwythurau llywodraethu cyfredol, nid yn rhan o'r Comisiwn.
- Perygl wedyn na chaiff darpariaeth chweched dosbarth ei chynnwys fyth.
- Colli'r cyfle i gysoni darparwyr o dan yr un strategaeth a nodau.
- Ffordd orau o reoli'r risg o ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a rhoi amser i'r Comisiwn sefydlu gweddill ei gylch gwaith cyn mynd i'r afael â darpariaeth chweched dosbarth, a allai lethu'r Comisiwn.
- Efallai nad yw'r dull 'gwneud popeth ar unwaith' yn ddichonadwy a bod pontio mwy hirdymor yn fwy ymarferol a chyflawnadwy. Mae diwygio eang yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn dod â risg weithredu sylweddol a fyddai'n fwy o dipyn pe bai cylch gwaith y Comisiwn yn cynnwys darpariaeth chweched dosbarth adeg ei sefydlu.
- Byddai datblygu'r rôl y tu hwnt i'r trefniadau cyfredol yn golygu llwyth gwaith ac aflonyddiad sylweddol wrth sefydlu'r Comisiwn newydd – hwyrach y byddai'n well mynd i'r afael â hyn maes o law.

## Rheoli'r berthynas rhwng y Comisiwn a darparwyr.

| |
|---|
| **Cwestiwn 28:**<br>A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn newydd weithredu system gofrestru i hwyluso dull hyblyg ond cyson o ymgysylltu â sefydliadau a darparwyr ledled yr ystod lawn o weithgarwch addysg a hyfforddiant ôl-orfodol?<br><br>Os felly, pa fodel, os o gwbl, sy'n well gennych chi, a pham? |

**Cwestiwn 28:**
Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod cofrestru yn ddull synhwyrol ar gyfle cyrff a ariennir gan arian cyhoeddus. Byddai angen i unrhyw system gofrestru sicrhau bod pob sefydliad yn cyrraedd yr un safonau o sefydlogrwydd a phriodoldeb ariannol, ond roedd angen i'r broses gydnabod y gwahanol fathau o ddarparwyr a sefydliadau, a chael ei haddasu i weddu iddynt. Cafwyd rhai sylwadau cyffredinol a rhai hefyd am bob un o'r modelau dan sylw.

- Pa fodel bynnag a ddewisir neu a ddatblygir, mae angen canolbwyntio ar amcanion strategol a byddai angen cymryd gofal i sicrhau nad oes dirnadaeth o sefydliadau uwchraddol neu israddol yn deillio o'r math o gofrestriad.
- Pwysigrwydd cael un cofnod parhaol o ddarparwyr a'r cymwysterau a gynigir, a bod hwnnw ar gael i'r cyhoedd, er mwyn sicrhau hygrededd addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru a system a oedd yn diogelu enw da'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru.
- Cydnabod system reoleiddio gymhleth a gwahanol ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn ei gyfanrwydd, na ddylai gael ei gwneud yn fwy cymhleth fyth drwy'r broses gofrestru.

<u>Cytundebau Deilliannau:</u>

- Byddai'r model yn rhoi dylanwad i'r Comisiwn ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol wrth bennu deilliannau darparwyr strategol, ond byddai llwyddiant y model yn dibynnu ar gydweithio helaeth i sicrhau bod darpariaethau'n cyd-fynd â'r sectorau twf.
- Roedd y model yn peri risgiau adeg pontio, i'r sector ôl-16 cyfan.
- Fel y soniwyd mewn ymatebion blaenorol, byddai angen cymryd gofal i ddiogelu ymreolaeth sefydliadau.
- Angen sicrhau nad yw sbardunau economaidd byrdymor yn drech ar bopeth arall.

<u>Cofrestru Darparwyr:</u>

- Roedd angen ystyried y broses gofrestru i sicrhau nad oedd yn rhoi gorlwytho rhagor ar y sector.
- Byddai angen egluro a datblygu rhagor ar y broses dosbarthu darparwyr.
- Roedd ymatebwyr eisiau mwy o wybodaeth am delerau ac amodau cofrestru.
- Angen bod yn sensitif i wahaniaethau yn y math o ddarparwr; byddai angen mwy o waith i ddiffinio pwy oedd y darparwyr (e.e. a ddylai gynnwys hyfforddwyr ac aseswyr unigol?)..
- Gallai fod yn sail dda ar gyfer atebolrwydd.
- Nododd y Brifysgol Agored fod angen ystyried sut mae'n cyd-fynd â'r model yng Nghymru gan ei bod yn gweithio ar draws y DU ac yn cael ei rheoleiddio gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr.

- Nododd CGA fod gofynion ar hyn o bryd i ymarferwyr sy'n cael eu cyflogi ym maes AB a Dysgu Seiliedig yn y Gwaith gael eu cofrestru gyda CGA ond nad oes gofynion ar fath ar gyfer ymarferwyr AU.

Compactau Rhanbarthol:

- Cydnabuwyd bod anghenion rhanbarthol yn bwysig.
- Potensial i adeiladu ar fodelau partneriaeth rhanbarthol cyfredol.
- Anawsterau gyda'r model oherwydd ffactorau cymdeithasol, economaidd, ieithyddol a daearyddol.

## Llywodraethu Addysg Uwch

**Cwestiwn 29:**
Rydym yn gofyn am safbwyntiau ar sut y gellid moderneiddio'r ddeddfwriaeth bresennol yn ymwneud â chorfforaethau addysg uwch yng Nghymru er mwyn eu gwneud yn gyfartal â darparwyr addysg uwch eraill, a'i hymgorffori o dan drefniadau cyfansoddiadol gwahanol, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- a ddylid dileu'r amodau presennol yn ymwneud â dogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch;
- a ddylid dileu'r gofyniad ar gyfer cymeradwyaeth Cyfrin Gyngor ar gyfer diwygiadau penodol i ddogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch
- a ddylid cadw neu ddileu pŵer presennol Gweinidogion Cymru i ddiddymu corfforaethau addysg uwch.

**Cwestiwn 30:**
Hefyd, rydym yn gofyn am safbwyntiau ynghylch a oes angen diwygio'r broses a'r meini prawf ar gyfer rhoi pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol i sefydliadau yng Nghymru yn sgil y broses o ddatblygu polisïau gwahanol yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn canolbwyntio ar y canlynol yn benodol:

- a ddylid cadw rôl y Cyfrin Gyngor yn ymwneud â rhoi pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru neu a ddylid trosglwyddo cyfrifoldeb am ran o'r broses neu'r broses gyfan i'r corff addysg a hyfforddiant ôl-orfodol newydd.

- a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd presennol ar gyfer pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol, gan gynnwys y gofyniad yn ymwneud â hanes.

- a yw'r sylfaen benagored bresennol ar gyfer rhoi pwerau dyfarnu graddau yn parhau i fod yn briodol yn sgil y newidiadau cyllido a rheoleiddio yng Nghymru.

- a ddylid ystyried y posibilrwydd o gyflwyno pwerau dyfarnu graddau mwy hyblyg yng Nghymru, fel lefel baglor yn unig neu bynciau cyfyngedig.

- a ddylid ystyried pwerau i amrywio a dirymu pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru,

- a fyddai unrhyw newidiadau i bwerau dyfarnu graddau a threfniadau dilysu yn gwella effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth sydd eisoes ar waith ar gyfer darpariaeth addysg uwch gan sefydliadau addysg bellach.

**Cwestiwn 29:**
Roedd ymatebwyr o'r farn mai mater i SAU oedd hwn ond bod angen ystyried y system AU ehangach a pherthnasoedd â SAB; dadleuwyd bod cydraddoldeb i bob darparwr yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn angenrheidiol. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod angen edrych ar y materion hyn ymhellach gyda chyfraniad parhaus rhanddeiliaid.

- Byddai dileu'r pwerau a restrir yn sicrhau cydraddoldeb a thegwch rhwng corfforaethau AU yng Nghymru a Lloegr, a rhwng corfforaethau AU a Phrifysgolion â Siarter Brenhinol
- Heb ofynion ysgrifenedig, bydd problemau mwy gyda thryloywder ac uniondeb wrth lywodraethu sefydliadau Cymru.

**Cwestiwn 30:**
Roedd ymatebwyr yn cydnabod bod y cyd-destun ar gyfer Cymru a Lloegr yn wahanol, gyda model Lloegr yn seiliedig ar sector AU sy'n cael ei ysgogi gan y farchnad. Mae newidiadau i bwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yn Lloegr yn rhan o ddiwygiadau ehangach i gyflawni hyn. Mae angen ystyried polisïau yn Lloegr sy'n torri ar draws flaenoriaethau polisi yng nghyd-destun Cymru.

- Angen cynnwys SAB wrth ystyried y materion hyn.
- Angen diogelu sector AU Cymru, ei enw da a'i ddysgwyr, a sicrhau nad yw o dan anfantais - dylid cymryd gofal gydag unrhyw gynlluniau i agor y farchnad i ddarparwyr amgen.
- Mae angen ystyried yn ofalus unrhyw fwriad i gyflwyno pwerau dyfarnu gradd am gyfnod prawf, pwerau i ddileu pwerau dyfarnu gradd neu deitlau prifysgol (e.e. trefniadau wrth gefn ar gyfer dysgwyr; effaith gwerth canfyddedig ar gymwysterau).
- Goblygiadau trawsffiniol os yw trothwyon ansawdd yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr, e.e. a fyddai cymorth benthyciad i fyfyrwyr ar gael i fyfyrwyr sy'n preswylio yng Nghymru sy'n talu ffioedd dysgu uwch yn Lloegr.
- Mae angen archwilio pellach i ateb y cwestiwn hwn – nid newid dim ond er mwyn newid ac nid oes angen newid ar frys.

## Trefniadau pontio – Paratoi i weithredu

**Cwestiwn 31:**
Bydd diogelu buddiannau dysgwyr ac amharu cyn lleied â phosibl ar ddarparwyr yn dylanwadu ar gynlluniau ar gyfer y cyfnod pontio. A oes angen ystyried unrhyw faterion eraill?

**Cwestiwn 32:**
Er mwyn helpu i lywio ein hasesiad o effaith bosibl y cynigion hyn, a allwch chi ragweld unrhyw effaith benodol ar y rhai â nodweddion gwarchodedig (yn unol ag ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010) a sut y gallent gael eu heffeithio'n benodol gan y cynigion hyn?

Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 31:**
Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, er i'r mwyafrif ofyn am gyfathrebu ynghylch dealltwriaeth lawn o'r newidiadau i'w gwneud a'u heffaith.

- Roedd cyfathrebu'n thema allweddol yn yr ymatebion i gyd, ynghyd â'r angen am bartneriaeth gref gyda darparwyr. Dylai profiad a llais y dysgwr fod yn greiddiol i'r Comisiwn.
- Cafwyd ceisiadau am eglurder llwyr ac amserlenni fel bod modd datblygu newidiadau, craffu arnynt a'u gweithredu gyda rhybuddion am newidiadau / cyhoeddiadau ar amser. Rhaid ystyried cost y comisiwn yn llawn cyn gweithredu.
- Yn ystod y cyfnod pontio o'r comisiwn rhaid ystyried effaith dadsefydlogi'r sector gan gynnal asesiadau effaith trylwyr. Mae angen cynlluniau wrth gefn rhag ofn i ddarparwr fethu, a rhaid parhau â'r trefniadau cyllido cyfredol oherwydd gallai fod yna effaith ariannol ar fusnesau.
- Nodwyd yn aml fod rhaid i'r Comisiwn weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau nad yw'n gwrthdaro â deddfwriaeth DU gyfan arall, a rhaid sicrhau nad oes bylchau mewn polisi wrth ymgorffori swyddogaethau cyrff eraill. Nodwyd y dylai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 gael ei hystyried yn llawn.
- Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y dylai'r diwygio gael ei gyflwyno fesul cam mewn 'dull esblygol', gyda llawer yn croesawu gweithredu 'elfennau' o'r comisiwn yn y dyfodol.
- Awgrymodd nifer o golegau y dylai'r Comisiwn fod yn seiliedig ar fodel Partneriaeth Gymdeithasol.
- Nodwyd ffactorau sefydliadol fel Adnoddau Dynol, Sgiliau/Arbenigedd, Cysoni Data, a Lleoliad/TG.
- Awgrymwyd y gellid defnyddio CCAUC fel corff cyfreithiol yn ystod y cyfnod pontio, a nodwyd y ffaith fod gan CCAUC bwerau i sefydlu pwyllgor Ymchwil ac Arloesi.
- Mynegwyd pryderon nad oedd digon o amser deddfwriaethol i reoli'r prosiect yn 'gywir' yn sgil y trefniadau i adael yr UE. Awgrymwyd y gallai gweithio gyda'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli'n barod ein galluogi i gyflawni'n gynt o lawer.

**Cwestiwn 32:**
Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gweld unrhyw effaith yn ystod y cam cychwynnol hwn ond maent yn disgwyl i'r pwnc hwn gael ei ystyried eto yn fanylach fel rhan o'r Ymgynghoriad Technegol. Nododd un ymatebwr yr ymgynghoriad fydd Llywodraeth Cymru yn ei gynnal yn fuan ar y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA) a sut gallai'r canlyniadau gael eu hymgorffori yn y prosiect.

- Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebion yr angen am Asesiad Effaith trylwyr, ac ymgysylltiad da â dysgwyr yn y grwpiau hyn i gael llais y dysgwyr.
- Gallai pa mor glir yw llwybrau dysgu a chyllid priodol leihau rhwystrau i ddysgwyr yn y grwpiau nodweddion gwarchodedig.
- Nodwyd nad yw'r dull 'un ateb i bawb' bob amser yn sicrhau cydraddoldeb ac y bydd angen cydweithio aml-asiantaeth i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb allweddol.
- It was noted that the 'one size fits all' doesn't always lend itself to equality approach, and that multi agency collaboration will be required to address key equality issues.
- Nodwyd bod rhai darparwyr yn gweithredu y tu allan i 'baramedrau arferol', felly mae angen 'ymgorffori' hyblygrwydd mewn prosesau/deddfwriaeth newydd er mwyn eu cefnogi. Gallai darparwyr adrodd ar ystadegau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb i'r Comisiwn.
- Dylai fod rhagor o leoliadau gwaith, prentisiaethau, interniaethau ar gyfer y grwpiau hyn, a phwyntiau mynediad is er mwyn iddynt all symud ymlaen.
- Dylai fod mwy o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned a chysylltiadau ag addewid Llywodraeth Cymru i ddarparu 30 awr o ofal plant.
- Mae dysgwyr sydd wedi'u cynnwys o dan y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu hystyried yn erbyn yr un deilliannau â 'phob' dysgwr. Nid yw hyn yn diwallu eu hanghenion ym mhob achos. A ellid ystyried 'sgiliau meddal' mewn rhai achosion i ddangos faint o gynnydd mae'r dysgwr wedi'i wneud?

## Y Gymraeg

**Cwestiwn 33**:
Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar
i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 34**:
Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn
i) cael effeithiau positif neu gael effeithiau positif ychwanegol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a
ii) peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 33:**

Roedd ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, gan nodi y byddai creu un corff ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Roedd ymatebwyr o'r farn y dylai'r Comisiwn:
  - gydymffurfio â Safonau a Mesur y Gymraeg, y dylai fod yn gorff dwyieithog a gosod targedau penodol ar gyfer y Gymraeg mewn cynlluniau strategol.
  - geisio gwella llwybrau Cymraeg a chynnydd drwy'r system yn y Gymraeg, gan sicrhau eu bod yn gydnaws ag anghenion economaidd Cymru.
  - parhau i weithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
  - gael ei ystyried yn gyfle i hyrwyddo'r Gymraeg, os yw'n cael ei gyfleu'n glir.

- Cyfeiriwyd yn rheolaidd at "Cymraeg 2050" a sut bydd y corff newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn allweddol i helpu Llywodraeth Cymru gyflawni ei nod o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Felly rhaid i'r comisiwn dalu sylw i bolisi hwn Llywodraeth Cymru.
- Teimlwyd y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol pe bai'r canlynol yn digwydd:
  - cyllid yn parhau ar gyfer darpariaeth Gymraeg (gan ddarparu cynnydd o bosibl), a'i fod yn darparu 'gwerth da' ac yn 'fantais' i Gymru;
  - cynllun sabothol Tiwtoriaid Cymraeg yn parhau;;
  - cyflwyno darpariaeth ar gyfer cyfieithwyr;
  - y Comisiwn yn nodi meysydd lle mae angen sicrhau'r Gymraeg – e.e. gofal iechyd/addysgu er mwyn cefnogi a chryfhau gwasanaethau yng Nghymru.

**Cwestiwn 34 :**
Roedd mwyafrif yr ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn yn eu hateb cyntaf. Roedd tua chwarter yr ymatebwyr o'r farn y byddent mewn gwell sefyllfa i wneud sylw pan gaiff cynigion mwy manwl eu cyhoeddi yn yr ymgynghoriad technegol.
Gellid newid y polisi arfaethedig i gael effeithiau cadarnhaol/dim effeithiau andwyol:

- Mae angen i'r Gymraeg fod yn ystyriaeth ganolog – ddim yn rhywbeth sy'n cael ei ychwanegu wrth ddatblygu polisïau.
- Trwy annog cyflogwyr i ymgysylltu â'r Gymraeg yn hytrach na chael eu gorfodi – fel 'model safonau cyflogwyr y sector cyhoeddus'.
- Os caiff ystyriaethau ieithyddol, diwylliannol a chyflogaeth eu nodi a bod ymgysylltiad â'r rheini sydd ag arbenigedd i lywio polisi.
- Os yw'r comisiwn yn cyflwyno pwyllgor y Gymraeg gyda chynrychiolwyr o blith myfyrwyr. 2
- Os oes cysylltiad strategol clir â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a bod cytundeb deilliannau'n cael ei drin a'i drafod i gynyddu'r cyfleoedd sydd yna i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn addysg ôl-16.
- Gallai ystadegau'r Gymraeg gael eu monitro gan y Comisiwn.
- Pe bai Rhifau Dysgwyr Unigryw yn cael eu gweithredu'n llawn fel bod modd olrhain myfyrwyr yn fwy effeithiol o'r system addysg i'r gweithle
- Pe bai argaeledd cyrsiau Cymraeg ar gyfer dysgwyr a'r gweithlu yn cael ei fonitro gan y Comisiwn.
- Pe bai'r Comisiwn yn hyrwyddo cydweithio agosach rhwng sefydliadau/darparwyr i ddarparu cyrsiau Cymraeg lle nad oes llawer o fyfyrwyr – er mwyn rhannu deunyddiau/adnoddau ac ati a gwneud cyrsiau'n hyfyw.
- Os caiff Asesiad Effaith eang a llawn ei gwblhau.
- Os yw'r Comisiwn yn ystyried sut bydd safonau'r Gymraeg yn gweithredu ar draws y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol i ddarparu profiad di-dor.

## Sylwadau Eraill

| **Cwestiwn 35**:<br>Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny: |
|---|

Dyma themâu cyffredin gan ymatebwyr:

**Llais y dysgwr:**

- Mae angen i hwn fod yn nodwedd fwy amlwg yn y gwaith datblygu yn y dyfodol.

**Y Gymraeg:**

- Dylai'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg fod yn rhan annatod o'r system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru lle bynnag y mae modd.
- Ychydig iawn o sôn a geir yn y ddogfen am bwysigrwydd a datblygiad darpariaeth addysg a hyfforddiant Gymraeg.
- Dylid ystyried cynlluniau'r Gymraeg mewn Addysg Awdurdodau Lleol, gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg a deddfwriaeth berthnasol arall yn cynnwys y Ddeddf Iechyd a Lles.
- Mae Cymraeg i Oedolion wedi gweld newidiadau mawr yn ddiweddar – a fydd Cymraeg i Oedolion yn cael ei gynnwys yn y cynnig hwn?

**ACL:**

- Dylai'r Comisiwn ystyried mai Dysgu Oedolion a'r Gymuned yw'r dull sy'n cael ei ffafrio gan lawer o ddysgwyr ar gyfer ennill cymwysterau – dylai fod cydraddoldeb o ran hygyrchedd cyllid ar gyfer y cyrsiau hyn a'r parch tuag atynt.
- Nid yw'r Papur yn canolbwyntio'n ddigonol ar Ddysgu Oedolion a'r Gymuned a sut mae'r rhain yn ymwneud â'r Comisiwn.
- O ran Dysgu Oedolion a'r Gymuned, nid yw'n glir a oedd hyn yn cynnwys darparwyr hyfforddiant preifat..
- Rydym yn cytuno'n llwyr ag 'ail gyfle i oedolion, nid ail orau'.
- Mae pobl hŷn yn y grŵp dros 50 oed angen cymorth i ailhyfforddi a datblygu sgiliau newydd os byddant yn colli gwaith yn sgil dileu swyddi, er enghraifft.

**Enw'r Comisiwn a'r Iaith a ddefnyddir:**

- Dylai Llywodraeth Cymru gyfeirio at y diwygiadau fel addysg ôl-16 yn hytrach nag ôl-orfodol. Nid yw ôl-orfodol yn golygu llawer i lawer o aelodau UCMC.
- Gallai'r defnydd o'r gair 'trydyddol' achosi dryswch yng nghyd-destun y DU. Mae posibilrwydd y byddai'r cyhoedd ehangach yn cysylltu'r gair hwn ag **addysg bellach** yn unig. a
- Gellid adnabod y corff newydd fel y 'Comisiwn ar gyfer Myfyrwyr'. Credwn y byddai gan yr enw hwn fwy o ystyr na Chomisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru.
- Nid ydym yn deall pam mae'r gair 'Comisiwn' wedi cael ei ddefnyddio yn hytrach na 'Cyngor'. Mae yna awgrym bod hyn yn cynnal 'comisiynydd' sydd â chyfrifoldeb a rôl arbennig a statws cyfreithiol yn ei rinwedd ei hun.
- Dylid ailystyried yr acronym Saesneg 'TERCW'. Dylai bod modd canfod enw ac acronym sy'n fwy hygyrch i'r cyhoedd, yn haws eu hadnabod gan gyrff cyfatebol ledled y DU. Gellid ystyried rhywbeth fel "Learning Wales/Dysgu Cymru" fel dewis amgen?

## Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

Y Bartneriaeth Dysgu Oedolion
Airbus
Ymatebion dienw (11)
Y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau
Prifysgol Bangor
Coleg Pen-y-bont ar Ogwr
Cynhadledd Penaethiaid Uwchradd Caerdydd
Cyngor Caerdydd
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Caerdydd – Tîm TAR-PCET
Gyrfa Cymru
Adran Addysg a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin
CAVC
Cyngor Ceredigion
Cadeiryddion Prifysgolion Cymru
Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu
Y Fargen Ddinesig
Coleg Cambria
Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Coleg Gwent
Coleg Y Cymoedd
Colegau Cymru
CYDAG
Cymdeithas Yr Iaith
David Owen
ECITB
Cyngor y Gweithlu Addysg
Sgiliau Ynni a Chyfleustodau
ESTYN
FISSS
Ffederasiwn Busnesau Bach
Llywodraethwyr Cymru
Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru
CCAUC
HMPPS
Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi (IACW)
Jayne Jones
Jisc
Julie Barton
Ysgol Brenin Harri'r VIII
Y Sefydliad Dysgu a Gwaith
Cymdeithas Ddysgedig Cymru
LM Silezin
Maes y Gwendraeth
Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau
Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
NCFE
Cyngor Dinas Casnewydd
Grŵp Colegau NPTC
Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
NUS Cymru
Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Y Brifysgol Agored
Coleg Sir Benfro
Cyngor Sir Penfro
Chwarae Cymru
Ysgol Gynradd Pontnewydd
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch
Cymwysterau Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Ymgyrraedd yn Ehangach
Richard Ebley
Gofal Cymdeithasol Cymru
Sophie Jenkins-Jones
Prifysgol Abertawe
Bwrdd Grŵp Llandrillo Menai
Trafnidiaeth Cymru
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
UCAC
Undeb Prifysgolion a Cholegau
UNSAIN
Prifysgolion Cymru
Gwasg Prifysgol Cymru
Cyngor bro Morgannwg
Llais Cymru
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

## Atodiad B1 – Crynodeb o ymatebion i'r sioe deithiol

*Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr ymarferiadau ymgynghori hyn wedi'u cynllunio i sicrhau bod amrywiaeth eang iawn o ddysgwyr a darparwyr dysgu proffesiynol yn gallu archwilio'n fanwl eu safbwyntiau ar PCET yng Nghymru a'r diwygiadau arfaethedig. Roedd y dull samplu yn fwriadus, a'r dulliau ymchwil a dadansoddi yn ansoddol, felly nid yw'n briodol cyffredinoli'r canfyddiadau i'r holl grwpiau dysgwyr a darparwyr yng Nghymru, ac nid yw'r canfyddiadau yn gwbl gynhwysfawr. Fodd bynnag, diolch i'r dulliau a ddefnyddiwyd, llwyddodd yr ymgynghoriad i greu naratif cyfoethog ac ansoddol, trosolwg defnyddiol a gwybodaeth bwysig, ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gymerodd ran.*

| Y BROSES DROSGLWYDDO I DDYSGWYR - Y PRIF BWYNTIAU |
|---|
| • Mae Cyngor a Chyfarwyddyd diduedd yn allweddol - mae llwybrau academaidd yn cael sylw trylwyr. Mae angen trin llwybrau galwedigaethol yn gyfartal ac fel dewis cadarnhaol, nid un eilradd.<br>• Rhaid rhoi lle canolog i lais y dysgwr yn y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (y Comisiwn)<br>• Rhaid i'r pontio rhwng addysg orfodol ac ôl-orfodol fod yn gwbl ddidrafferth - yn enwedig o ran yr wybodaeth sy'n cael ei throsglwyddo am y dysgwr.<br>• Mae angen i'r Comisiwn hwyluso a threfnu'r gwaith o gyfeirio<br>• Dylid cynnwys dosbarthiadau chwech er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb o ran dulliau gweithredu ac i sicrhau bod lle canolog i ddewisiadau'r dysgwr ac i opsiynau rhanbarthol<br>• Rhaid i'r dull o fesur llwyddiant fod yn gyson ar draws y sector PCET<br>• Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn gyrru'r broses gyflenwi a'r dewisiadau - cydnabyddiaeth nad dyma'r ffordd orau o fonitro o ran budd i'r dysgwr bob tro.<br>• Gall Dangosyddion Perfformiad Allweddol newid yn aml ac ar fyr rybudd. Gall hyn fod braidd yn llesteiriol.<br>• Gallai newidiadau greu cyfleoedd i ddigido'r system bresennol.<br>• Mae angen ystyried fformat (digidol) cyffredin ar gyfer ymgeisio am opsiynau galwedigaethol a chweched dosbarth i gynorthwyo llif data a phrofiad y dysgwr.<br>• Rhaid rhoi blaenoriaeth i sgiliau gyrfa gyfan ac ailhyfforddi i sicrhau gweithlu hyblyg ac ystwyth. Mae cyllid ar gyfer dysgu rhan-amser a dysgu oedolion wedi cael ei gwtogi'n gyson.<br>• Gallai hawl hyd at 23 oed fod yn fwy hyblyg - mae'n gyrru dewisiadau anghywir mewn rhai achosion. Mae pobl yn teimlo'u bod ar y cyrsiau anghywir ac nid ydynt yn gallu ailddechrau ac adolygu eu penderfyniadau. |

## ANSAWDD A GWELLA - Y PRIF BWYNTIAU

- Mae cyfleoedd i greu fframwaith mwy cyson ar gyfer sicrhau ansawdd, ond mae'n rhaid iddo allu adlewyrchu cyd-destun y sector: dydy'r un ateb ddim yn addas i bawb.
- Dylai dulliau gweithredu ac asesu fod yn gymesur â maint a natur y sefydliad.
- Byddai darparwyr dysgu'n croesawu unrhyw ymdrechion i symleiddio prosesau ac i leihau biwrocratiaeth. Mae dulliau gweithredu Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn cael eu hystyried yn eithaf beichus. Mae lle i ymchwilio i ddulliau gweithredu sydd wedi'u seilio ar risg ar gyfer Sicrhau Ansawdd, a/neu dylid ystyried cynnal adolygiadau sy'n llai dwys ond sy'n digwydd yn amlach.
- Er bod mesur deilliannau'n bwysig, mae angen i'r fframwaith Sicrhau Ansawdd fesur y pethau 'cywir', gan gynnwys cyrchfannau, gwerth a ychwanegwyd ac ennill sgiliau 'meddal'. Mae angen iddo osgoi agwedd rhy fecanyddol at ddata, a sicrhau bod unrhyw feincnodau/cymariaethau yn ystyrlon a'u bod yn adlewyrchu'r cyd-destun sefydliadol. Ni ddylid seilio trefniadau ar fetrigau'n unig.
- Dylai darparwyr dysgu barhau i fod yn gyfrifol am hunanasesu a hunanwella.
- Mae cynnwys dysgwyr yn allweddol o ran sicrwydd a gwella.
- Byddai dull gweithredu mwy thematig a/neu mwy daearyddol ar gyfer adolygu ansawdd, sy'n gallu ystyried pa mor dda mae'r holl system PCET yn gweithio mewn ardal, yn ddefnyddiol. Mae dealltwriaeth llawer o ddarparwyr dysgu a rhanddeiliaid eraill yn brin o ran sut y mae pethau'n gweithio mewn sectorau ac eithrio'u rhai eu hunain, ac efallai bod cyfle i feithrin diwylliant ymhlith darparwyr eu bod yn rhan o system fwy, sy'n fwy cydlynol.
- Mae angen diffiniad mwy eglur o'r term 'gwella ansawdd' y gellir ei ddefnyddio ar draws yr holl system PCET. Dylai hyn roi eglurdeb ynghylch beth yn union sy'n cael ei wella ee sector, sefydliad, profiad y dysgwr, darpariaeth ac yn y blaen.
- Mae'n ymddangos bod 'gwella' yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl ac mae'r gweithgareddau sydd ar waith nawr yn cael eu gweithredu mewn dull anghyson a thameidiog. Mae angen integreiddio 'gwella' yn iawn â sicrhau ansawdd.
- Dylai'r Comisiwn fod â rôl o ran gwella ansawdd, ond nid o reidrwydd ar sail statudol. Dylai wneud y canlynol:
    - Canolbwyntio ar themâu/blaenoriaethau strategol hanfodol - gwneud ychydig o bethau'n dda yn hytrach na chreu mentrau di-rif;
    - Cefnogi lledaenu arfer gorau ar draws ffiniau sectorau.
    - Cefnogi polisïau cydweithredol/rhanbarthol;
    - Dylai gweithgareddau fod yn hydredol ac yn gynaliadwy;
    - Helpu i gydgysylltu gweithgarwch ar draws asiantaethau fel yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, Estyn, yr Academi Addysg Uwch (HEA), Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

## DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG - Y PRIF BWYNTIAU

- Mae angen i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg fod yn rhan annatod o weithgarwch Comisiwn newydd. Mae angen adolygu a gwella'r gwaith cynllunio a chyllid ar draws pob un o'r sectorau PCET.
- Mae ffactorau sy'n gyrru darpariaeth Gymraeg yn dod o feysydd penodol ym myd diwydiant a'r dysgwyr eu hunain, ond mae diffyg adnoddau i helpu i gyflenwi darpariaeth Gymraeg. Mae angen i'r Comisiwn drefnu cyflenwi darpariaeth Gymraeg ar draws pob sector a phob llwybr dysgwyr hyd at, a chan gynnwys, lefel gradd.
- Mae ysgolion yn ffactor pwysig sy'n gyrru darpariaeth yn Gymraeg, ond mae ysgolion y tu allan i faes PCET.
- Rhaid datblygu sgiliau staff yn y Gymraeg er mwyn iddynt gyflwyno eu pynciau yn Gymraeg, ond mae diffyg cymhelliant i wneud hyn. Mae'r rhai sy'n ceisio gwneud hyn yn ei chael yn anodd heb adnoddau ychwanegol i gynhyrchu deunyddiau a chyflwyno gwersi'n ddwyieithog. Mae angen i wella sgiliau staff fod yn rhan o'r strategaeth gyffredinol.
- Gellid gwella'r broses o uwchsgilio staff petai darpariaeth yn y Gymraeg yn rhan annatod o'r TAR ar gyfer staff newydd sy'n ymuno â'r sector.
- Mae'n rhaid gallu cael gafael ar well data i nodi llithriant rhwng dosbarthiadau chwech a cholegau.
- Mae angen sôn am ddarpariaeth Gymraeg ar wyneb y Bil, ond mae angen mynd i'r afael â newid y diwylliant er mwyn peidio ag ystyried darpariaeth yn y Gymraeg fel rhywbeth atodol.
- Mae'n anodd gwybod lle sydd orau i osod darpariaeth yn y Gymraeg, heb weld beth yw rôl y Comisiwn. Os yw cyllid ar gyfer darpariaeth Gymraeg yn rhan o gylch gwaith y Comisiwn, bydd angen mynd i'r afael â sut y bydd hwn yn cael ei 'ddiogelu' rhag toriadau.
- Nid ydym eisiau peryglu'r hyn sydd wedi cael ei wneud hyd yma ac mae angen parhau i gael llais cryf dros y Gymraeg.
- Mae angen mynd i'r afael â sut y mae cyrff fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Chymwysterau Cymru yn cyd-fynd ac yn cydweithio â'r Comisiwn newydd.

## CYLLID A LLYWODRAETHIANT - Y PRIF BWYNTIAU

- Rhaid i'r dysgwr fod yn ganolog i bopeth a wnaiff y Comisiwn.
- Rhaid i weledigaeth y Comisiwn fod yn glir, gyda golwg at y tymor hir. Rhaid iddo ystyried y 'darlun cyfan' i sicrhau bod y sectorau'n cydweithio'n well.
- Rhaid ystyried penderfyniadau gwerth am arian a dylent fod yn nodwedd o'r hyn y mae'r comisiwn yn ceisio'i gyflawni.
- Mae'r arfer o ariannu Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith yn y tymor byr yn achosi anawsterau o ran cynllunio ariannol a pharatoi rhagolygon yn yr hirdymor. Byddai cytundebau cyllid sy'n para'n hirach yn rhoi mwy o eglurdeb.
- Dylai swyddogaeth y Comisiwn adlewyrchu egwyddorion sylfaenol, gan gynnwys: diogelu buddiannau myfyrwyr, rhoi llais y dysgwr

wrth graidd popeth; ymateb i anghenion economi Cymru a'r farchnad lafur; dileu cystadlu diangen ac ehangu cyfleoedd i ddysgwyr.

- Mae dosbarthiadau chwech yn gyfrifol am bron 50% o'r holl ddysgwyr a dylent ddod o fewn cylch gwaith y Comisiwn
- Dylai bob darparwr PCET fod â threfniadau cadarn ar gyfer rheolaeth ariannol a llywodraethu.
- Mae'n bwysig bod cysondeb ar draws holl sectorau PCET o ran safon y reolaeth ariannol a llywodraethu y mae'n rhaid i ddarparwyr ei dangos.
- Mae trefniadau gan bob sector ar hyn o bryd ar gyfer sicrwydd ariannol a llywodraethu ac ni ddylid colli eu cryfderau allweddol.
- Ni ddylai unrhyw drefniadau deddfwriaethol fod yn rhy benodol o ran manylion ond yn hytrach dylent bennu egwyddorion bras sy'n rhoi cyfwerthedd ar draws pob sector. Dylid rhoi rhwydd hynt i'r Comisiwn ddatblygu trefniadau sicrwydd ariannol a llywodraethu mewn ymgynghoriad â darparwyr PCET ac i deilwra'r rhain at anghenion gwahanol fathau o ddarparwyr. Dylid rhoi digon o bwerau ymyrryd i'r Comisiwn i roi dannedd iddo, ond dylai'r rhain weithio ochr yn ochr â sancsiynau llai sy'n caniatáu iddo weithio gyda darparwyr i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a nodir
- Mae cyfle yma i greu ateb sy'n unigryw i Gymru a dylid cymryd gofal i beidio â bodloni ar ychwanegu pwerau i'r fframwaith presennol yn unig.
- Mae ymreolaeth sefydliadau yn bwysig ac mae angen ei diogelu. Dylai cyrff llywodraethu barhau i fod yn atebol ar draws pob sector.

## CYLLID A CHYNLLUNIO - Y PRIF BWYNTIAU

- Bydd gofyn i'r Comisiwn fod yn hyblyg i allu trin a thrafod gwahanol ddarpariaethau/gwahanol argyhoeddiadau/gwahanol systemau, oherwydd cydnabuwyd nad oedd un ateb yn ddigonol ar gyfer materion cyllidebol ac ariannol ar draws pob sector.
- Dylai'r Comisiwn geisio datblygu dull mwy cytbwys a chydlynol o weithredu o ran cyllid Addysg Uwch ac Addysg Bellach er mwyn symleiddio prosesau.
- Mae angen i'r Comisiwn sicrhau cyllid ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob sector.
- Rhaid i'r Comisiwn sicrhau perthynas gref â'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i ddeall anghenion yr economi yng Nghymru.
- Byddai model cyllid 3 blynedd, wedi'i gysylltu â chynlluniau strategol, yn fanteisiol ac yn llai cymhleth i bawb.

## GWARCHOD DYSGWYR – Y PRIF BWYNTIAU

**Trefniadau i gefnogi dysgwyr pe bai cwrs yn dod i ben, campws neu ganolfan yn cau neu ddarparwr yn methu**

- Mae gan bob un o'r sectorau drefniadau gwahanol ar gyfer gwarchod dysgwyr gyda rhai trefniadau'n cynnig mwy o help nag eraill.

- Mae angen creu system nad yw'n effeithio ar annibyniaeth sefydliadau.
- Ni ddylai trefniadau fod yn rhy rhagnodol a dylent gadw elfen o hyblygrwydd i ddarparwyr.
- Dylai fod egwyddorion gwarchod cyffredinol waeth lle ydych chi'n astudio, gydag egwyddor sylfaenol o degwch ar draws y sector PCET cyfan.
- Dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am ddarparu cyfarwyddyd sylfaenol gan gyflwyno cydraddoldeb ar sail egwyddorion cyffredin a chytundebau deilliannau.
- Dylai'r darparwyr fod yn gyfrifol am y cynlluniau gwarchod dysgwyr a dylai'r Comisiwn sicrhau'r cynlluniau a gwneud yn siwr eu bod yn addas i'r diben.
- Mae angen cymryd i ystyriaeth gofynion cyfraith cystadleuaeth. Awgrymwyd y gallai fod un cynllun sefydliadol ar ffurf sy'n briodol i'r darparwr a'i strwythurau, a hefyd fersiwn gryno sy'n addas i'r dysgwyr gan defnyddio templed cyffredin ar draws y sector PCET.
- Dylid ystyried anghenion gwahanol y dysgwyr pan fydd campws yn cau/cwrs yn dod i ben neu ddarparwr yn methu. Nid yw rhai dysgwyr yn gallu trosglwyddo'n hawdd i gyrsiau eraill oherwydd trafnidiaeth, gofal plant neu ymrwymiadau gwaith. Dylid hefyd ystyried iawndal ariannol, lle bo'n briodol.
- Er mai'r darparwr ddylai fod yn gyfrifol am y trefniadau, dylai'r Comisiwn allu ymyrryd a dylai fod yn ofynnol iddo ddarparu gwarchodaeth e.e. pe bai darparwr yn methu.
- Mae angen ystyried pa sancsiynau a phwerau ymyrryd a fyddai'n fwyaf priodol ar gyfer y Comisiwn - efallai na fyddai pwerau ariannol o'r cymorth mwyaf.
- Mae'n bwysig cael cytundeb ymlaen llaw â dysgwyr i ddangos ystod o fesurau a phroses ymgynghori, efallai drwy fforwm llais y dysgwr.
- Dylid cyfathrebu â dysgwyr mewn ffordd glir gan osgoi jargon.
- Mae angen darparu gwybodaeth i ddysgwyr yn amserol pan na fydd digon wedi cofrestru ar gyfer cwrs a'i fod felly'n annhebygol o gael ei gynnal.

**<u>Cymorth ar gyfer dysgwyr sy’n dymuno newid cwrs neu ddarparwr</u>**

- Mae angen cryfhau'r cyngor ar yrfaoedd a roddir mewn ysgolion. Mae angen i ddisgyblion fod yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael iddynt a'r lefel o ymrwymiad y bydd angen iddynt ei roi i'w maes dewisedig, gan gynnwys yr ymrwymiad ariannol.
- Mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r cwrs cyn eu bod yn cofrestru ar ei gyfer. Bydd hyn yn eu helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a yw'r dull/maes astudio yn briodol ar gyfer eu hanghenion er mwyn lleihau'r tebygolrwydd eu bod yn dewis y cwrs anghywir.
- Mae angen darparu gwybodaeth yn amserol i ddysgwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r diwrnodau astudio er mwyn iddynt allu trefnu ymrwymiadau domestig.
- Mae hefyd angen ystyried newidiadau i gynnwys cyrsiau a modiwlau a newidiadau i'r modd y darperir yr astudio. Mae angen ymgynghori â myfyrwyr mor gynnar â phosibl.

- Mae achredu dysgu blaenorol yn gyson/trosglwyddo credydau yn bwysig fel bod dysgwyr yn gallu parhau a'u hastudiaethau.

**Trefniadau datrys cwynion ar gyfer dysgwyr yn y sector PCET**

- Mae gan wahanol sectorau o fewn PCET eu trefniadau eu hunain ar gyfer datrys cwynion - ar hyn o bryd nid oes gweithdrefn gwyno gyffredin ar gyfer y sector PCET cyfan.
- Hyd yn oed os yw dysgwyr yn gallu troi at gorff allanol, mae'n bwysig bod gan y darparwr ei hun bolisïau a gweithdrefnau clir ar gwynion, gyda chamau clir.
- Bydd gan bob dysgwr yn y sector PCET anghenion gwahanol, a byddai hyn yn rôl fawr i'r Comisiwn ei hysgwyddo. Byddai angen i'r Comisiwn feddu ar sgiliau perthnasol/ymwybyddiaeth o'r sectorau unigol.
- Ni ddylai'r Comisiwn ymchwilio i gwynion ei hun ond yn hytrach bod â rôl oruchwylio a gwybod lle mae problemau/patrymau. Felly, mae angen gallu rhannu gwybodaeth rhwng y Comisiwn a chorff/cyrff ymchwilio cwynion er mwyn nodi a delio â phroblemau systemig.
- Mae angen i bwy bynnag sy'n ymchwilio i gwynion fod â'r awdurdod i osodi sancsiynau ar ddarparwyr a sicrhau bod argymhellion yn cael eu gweithredu.
- Mae myfyrwyr AB yn fwyfwy ymwybodol o rôl yr SDA ac yn anfodlon nad oes ganddynt yr un trefniant (ymddengys fod mwy o ymwybyddiaeth ers i ddysgwyr AU mewn AB gael eu cynnwys).
- Bydd dysgwyr sy'n gwneud cwyn yn aml yn bryderus iawn ac felly mae angen iddynt gael eu cefnogi drwy'r broses.
- O ran prentisiaid, gallai fod yn heriol gwahaniaethu rhwng materion sy'n ymwneud â'r darparwr a'r rheini sy'n ymwneud â'r cyflogwr. Ceir hefyd rhai agweddau anelwig yn ymwneud ag AU e.e. myfyrwyr sy'n astudio/gweithio dramor am flwyddyn yn ystod eu cwrs gradd.

## YMCHWIL AC ARLOESI – Y PRIF BWYNTIAU

- Dylid cynnwys AB yn y cyllid ymchwil mewn ffordd cydweithredol.
- Mae angen i arbenigedd arbenigol o fewn AB gael ei weld fel rhywbeth sy'n ychwanegu gwerth i geisiadau UKRI.
- Mae angen i RIW helpu i hwyluso a broceru ceisiadau UKRI rhwng sefydliadau yng Nghymru a pheidio ag ychwanegu haen o fiwrocratiaeth.
- Mae annibyniaeth academaidd yn hollbwysig; ni ddylai RIW fod yn rhwystr - angen rhywfaint o ryddid ar RIW ond rhaid iddo fod yn atebol i TERCW hefyd.
- Mae angen i berthnasau rhwng RIW - TERCW - AU - AB a busnes fod yn eglur a chryf.
- Rhaid cael aelodaeth gref ar gyfer Bwrdd RIW a chysylltiadau digonol â Bwrdd UKRI.
- Dylai ychwanegu gwerth at y system bresennol a darparu mynediad i ffrydiau cyllido eraill - angen sicrhau'r hyn sydd orau i economi a busnesau Cymru.

## STRATEGAETH A DEILLIANNAU – Y PRIF BWYNTIAU

- Bydd angen i'r Comisiwn gynnal y berthynas gref a phersonol sydd gan LlC a CCAUC ar hyn o bryd gyda rhanddeiliaid PCET.
- Rhaid i berthynas y Comisiwn fod yn agored a thryloyw.
- Bydd perthynas y Comisiwn ag addysg cyn-16 yr un mor bwysig â'r sector PCET. Dylid darparu gwybodaeth i ddysgwyr am lwybrau datblygu er mwyn camu ymlaen o addysg cyn-16 i gyflogaeth/sectorau economaidd.
- Rhaid i'r model a ddewisir i ffurfio'r berthynas rhwng y Comisiwn a'r darparwyr gydnabod data Gwybodaeth am y Farchnad Lafur a chymryd i ystyriaeth mewnbwn o'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a chyflogwyr.
- Mae angen ystyried hanes y systemau Dysgu Seiliedig ar Waith, AB ac AU cyn gwneud newidiadau mawr - cydnabod y gwaith a wnaed hyd yn hyn.
- Bydd angen newid 'diwylliant' y Comisiwn newydd - cael gwared ar y gwahaniaethau rhwng y sectorau er mwyn datblygu cydweithio rhyngddynt.
- Byddai angen sgiliau/gwybodaeth ar staff y Comisiwn i weithio ar draws sector PCET, a dealltwriaeth o gyd-destun y gwaith, gan y byddai hyn hefyd yn helpu i fynd i'r afael â gweithio ynysig.
- Dylai fod profiad eang o'r sector PCET ymhlith aelodau Bwrdd y Comisiwn.
- Dylai'r Comisiwn ddarparu cyngor a chyfarwyddyd i ddysgwyr drwy gydol eu dysgu ar gynllunio gyrfa, cyfleoedd am gyflogaeth a'r prif sectorau sy'n tyfu.
- Mae angen i'r cyngor fod yn annibynnol a chanolbwyntio ar anghenion dysgwr gan sicrhau parch cydradd. Mae angen ystyried y berthynas â Gyrfa Cymru.
- Dylai'r Comisiwn rannu gwybodaeth a data ar draws sectorau.
- Dylai'r Comisiwn rannu gwybodaeth/codi ymwybyddiaeth/dathlu llwyddiant yn gyson ar draws Cymru.
- Ni ddylai cyfeiriad strategol y Comisiwn newydd fod yr un peth â'r system bresennol a dylai gyflawni newid a gwelliannau.
- Dylai rôl y Comisiwn gynnwys annog cydweithio systemig rhwng darparwyr. Dylid ystyried a ddylai'r Comisiwn danysgrifennu unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch ar y cyd.
- Mae'n bwysig sicrhau parch cyfartal rhwng gwahanol lwybrau dysgu a rhwng y gwahanol sectorau PCET.
- Dylai'r Comisiwn gael yr hyblygrwydd a'r annibyniaeth i wneud penderfyniadau ar lawr gwlad.
- Dylai'r Comisiwn sicrhau dull cyson o gasglu a rhannu data.
- Roedd llawer o gefnogaeth ar gyfer cynnwys dosbarthiadau chwech yng nghylch gwaith y Comisiwn.
- Codwyd pryderon hefyd ymhlith rhai darparwyr y gallai cynnwys dosbarthiadau chwech gyfyngu'n fawr ar adnoddau'r Comisiwn, yn enwedig o ran sicrhau cysylltiadau penodol i ddarparu gwybodaeth a chyngor i ddarparwyr dysgu.
- Mae angen i'r Comisiwn fod yn sensitif i anghenion cyflogwyr.

## Atodiad B2 - Rhestr o Fynychwyr y Sioe Deithiol

Mynychodd cyfanswm o 103 o bobl o'r sefydliadau canlynol:

Prifysgol Aberystwyth
Acorn
Addysg Oedolion Cymru
Babcock Training
Prifysgol Bangor
Coleg Pen-y-bont ar Ogwr
CACHE/NCFE
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cambria
Cambrian Training Company Cyfyngedig
Coleg Caerdydd a'r Fro
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Prifysgol Caerdydd
Gyrfa Cymru
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Ceredigion
Cyngor Abertawe
Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Coleg Sir Gâr

Coleg y Cymoedd
Colegau Cymru
Gwasanaeth Cyflawni Addysg
Cyngor y Gweithlu Addysg
ESTYN
EWC
Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
Coleg Gŵyr Abertawe
Grŵp Llandrillo Menai
GwE
Gyrfa Cymru
CCAUC
CCAUC – Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
ISA Training
Coleg Merthyr Tudful
Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru – Adran Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr
Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
North WalesTraining

Grŵp Colegau NPTC
NTfW rhanbarth y De-ddwyrain
NUS Cymru
Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol
Coleg Sir Benfro
Awdurdod Lleol Sir Benfro
PeoplePlus
Cyngor Sir Powys
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Cymwysterau Cymru
Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol De Orllewin a Chanolbarth Cymru
Rhondda Cynon Taf
Prifysgol Abertawe
Gwasanaeth Pobl Ifanc Abertawe – Tîm NEET
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Undeb Prifysgolion a Cholegau
Prifysgolion Cymru
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Llywodraeth Cymru
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

## Atodiad C1 – Crynodeb o Ddigwyddiad Llais y Dysgwr

*Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr ymarferiadau ymgynghori hyn wedi'u cynllunio i sicrhau bod amrywiaeth eang iawn o ddysgwyr a darparwyr dysgu proffesiynol yn gallu archwilio'n fanwl eu safbwyntiau ar PCET yng Nghymru a'r diwygiadau arfaethedig. Roedd y dull samplu yn fwriadus, a'r dulliau ymchwil a dadansoddi yn ansoddol, felly nid yw'n briodol cyffredinoli'r canfyddiadau i'r holl grwpiau dysgwyr a darparwyr yng Nghymru, ac nid yw'r canfyddiadau yn gwbl gynhwysfawr. Fodd bynnag, diolch i'r dulliau a ddefnyddiwyd, llwyddodd yr ymgynghoriad i greu naratif cyfoethog ac ansoddol, trosolwg defnyddiol a gwybodaeth bwysig, ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gymerodd ran.*

Yn ystod yr haf, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ymgynghoriad cychwynnol yn cynnig dull gweithredu sy'n unigryw i Gymru ar gyfer **addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (PCET)** fel bod pobl yn gallu dysgu ac ennill sgiliau yn haws gydol eu gyrfaoedd.

Fel rhan o'r broses ymgynghori ehangach, cynhaliodd Tîm Marchnata a Chyfathrebu SHELL ddau ddigwyddiad i roi cyfle i ddysgwyr ddweud eu dweud am sut i ddatblygu'r gwaith hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn trafod adborth o'r digwyddiadau er mwyn llywio'r broses ymgynghori.

### Cyflwyniad

Cynhaliwyd y digwyddiad llais y dysgwr cyntaf yng Ngwesty'r Cei, Deganwy ar 4 Hydref 2017. Mynychodd cyfanswm o 105 o bobl y digwyddiad hwn – tua 80 o ddysgwyr a 25 o weithwyr proffesiynol.

Cynhaliwyd yr ail ddigwyddiad yn y Motorpoint Arena, Caerdydd ar 12 Hydref 2017. Mynychodd cyfanswm o 109 o bobl y digwyddiad hwn – tua 85 o ddysgwyr a 24 o weithwyr proffesiynol.

Roedd y digwyddiadau'n rhyngweithiol ac yn gyffrous, a defnyddiwyd bysellbadau pleidleisio i ddysgu am ganfyddiadau, ysgogiadau clyweledol a thrafodaethau bwrdd wedi'u hwyluso. Defnyddiwyd cyflwynydd i arwain y gynulleidfa drwy'r digwyddiad. Cynhaliwyd y digwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac roedd cyfle i bobl siarad yn yr iaith o'u dewis.

Dewiswyd y cwestiynau a'r pynciau trafod ymlaen llaw ac fe'u datblygwyd yn unol â themâu'r ymgynghoriad er mwyn hwyluso adborth i'r broses ehangach. Roedd y ddau ddigwyddiad yn trafod yr un cynnwys er mwyn ceisio casglu barn gyffredinol gryfach yn ymwneud â phynciau perthnasol yr ymgynghoriad.

### Crynodeb Gweithredol

Fel rhan o'r broses ymgynghori ar ddiwygio PCET, cynhaliwyd dau ddigwyddiad penodol gan Dîm Marchnata a Chyfathrebu SHELL i roi cyfle i ddysgwyr ddweud eu dweud. Cynhaliwyd y digwyddiadau yn Neganwy ar 4 Hydref 2017 ac yng Nghaerdydd ar 12 Hydref 2017. Cymerodd 214 o bobl ran yn y digwyddiadau, gan gynnwys tua 165 o ddysgwyr. Roedd dysgwyr o'r holl sectorau PCET yn bresennol yn y ddau ddigwyddiad.

Roedd y digwyddiadau'n rhyngweithiol ac roeddent yn cynnwys trafodaethau bwrdd wedi'u hwyluso yn seiliedig ar themâu a ddewiswyd ymlaen llaw yn ymwneud â'r ymgynghoriad. Dewiswyd themâu'r digwyddiad ar y sail eu bod yn fwy perthnasol i ddysgwyr ac yn sicrhau bodd modd iddynt gymryd rhan yn llawn yn y broses a theimlo eu bod yn cael eu cynnwys: (i) ehangu mynediad a chyfranogiad, (ii) diogelu buddiannau dysgwyr, (iii) cynorthwyo dysgwyr i wneud dewisiadau da o safbwynt cwrs/cyrsiau neu ddarparwyr, a (iv) yr iaith Gymraeg.

Mae'r pwyntiau a godwyd ar gyfer pob thema wedi'u crynhoi mewn adrannau dilynol o'r adroddiad hwn.

Un o'r pynciau a godwyd yn aml mewn sgyrsiau gwahanol oedd ***gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar gyfer dysgwyr***. Nodwyd bod angen rhagor o gymorth yn y maes hwn, a dywedodd llawer o ddysgwyr nad ydynt yn gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd neu sut i gael gafael arnynt. Mae dysgwyr eisiau deall yr holl ddewisiadau sydd ar gael iddynt, ac maent am dderbyn sicrwydd bod y wybodaeth, y cyngor, a'r arweiniad a gânt yn ddiduedd ac er eu budd pennaf. Roedd sawl sgwrs yn trafod y diffyg statws cyfartal rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol. Cyfeiriwyd at 'amseru', ac roedd dysgwyr iau yn awyddus i dderbyn gwybodaeth ac arweiniad yn gynt o lawer nag ar hyn o bryd. Gair arall a ddefnyddiwyd oedd 'personoli', a nododd y dysgwyr eu bod yn awyddus i dderbyn cymorth i ddatblygu llwybrau gyrfa personol a chyngor ac arweiniad teilwredig yn unol â'u hanghenion. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi pwynt cyswllt canolog a chymorth dros y we, ond maent yn pwysleisio bod cymorth wyneb yn wyneb yn hanfodol bwysig hefyd.

***Arian*** ac ***ofn dyled*** oedd y rhwystrau a nodwyd amlaf sy'n atal dysgwyr rhag mynd i'r brifysgol. Hefyd, cyfeiriwyd at y cyfaddawd rhwng lleoliad a chost trafnidiaeth mewn trafodaethau ar ddulliau eraill o ddysgu ôl-16 ac mewn perthynas â'r effaith ar ddysgwyr pan fydd cyrsiau'n dod i ben neu gampysau'n cau. Cyfeiriodd dysgwyr at bwysigrwydd cymorth ariannol a gwybodaeth gynnar am gyllid i fyfyrwyr er mwyn eu helpu i gynllunio.
Gall rhai dysgwyr ei chael yn anodd parhau â'u cwrs neu â dysgu pellach am resymau amrywiol, ac mae'n bwysig bod cymorth priodol ar gael iddynt yn yr amgylchiadau hyn. Yn gyffredinol, mynegwyd safbwyntiau cymysg ar y ***dulliau cymorth staff*** sydd ar gael ar hyn o bryd, ac awgrymwyd bod ***angen gwella*** lefel ac ansawdd y cymorth.

Roedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn credu bod yr iaith Gymraeg yn bwysig, ond roedd ***rhai ohonynt yn cwestiynu'r ffaith fod y Gymraeg yn orfodol mewn ysgolion,*** gan nodi bod angen dewis. Cafwyd rhai sylwadau cadarnhaol ynglŷn â chyfleoedd dysgwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, ond y safbwynt cyffredinol yw ***nad oes digon o gyfleoedd i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.***

Cafwyd cais cyffredinol gan oedolion sy'n ddysgwyr a fynychodd y digwyddiadau am gydnabod eu hanghenion fel rhan o'r broses ddiwygio. Trafodwyd pwysigrwydd cyrsiau mynediad a dysgu cymunedol, ynghyd â'r angen i ddarparu dulliau cymorth priodol er mwyn hwyluso ymgysylltu a defnydd (e.e. cyfleusterau crèche ac oriau a darpariaeth hyblyg).

Dangosodd y gwerthusiad o'r digwyddiadau fod y rhai a'u mynychodd yn credu eu bod yn ddefnyddiol iawn ac yn fodd pleserus a rhyngweithiol o gymryd rhan mewn trafodaethau mewn ffordd gadarnhaol. Roedd pobl yn gwerthfawrogi'r ffaith fod amrywiaeth o ddysgwyr wedi mynychu pob digwyddiad, gan arwain at safbwyntiau diddorol a gwahanol a sgyrsiau cynhyrchiol. Hefyd, roedd pobl yn parchu'r ffaith fod y digwyddiad yn ddwyieithog.

Mae'r gwerthusiad a'r adborth terfynol yn dangos yn glir bod dysgwyr a mynychwyr eraill wrth eu bodd yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad a'u bod yn awyddus i gyfrannu at bob cam o'r broses. Bydd yn bwysig dangos sut mae Llywodraeth Cymru wedi gwrando ar yr adborth wrth lunio a datblygu'r diwygiadau a'r Comisiwn newydd.

Mae'r adroddiad llawn ar gael yn: https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/system-addysg-hyfforddiant-ol-orfodol-wedii-diwygio

## Atodiad C2 Rhestr o Fynychwyr Digwyddiadau Llais y Dysgwr

Acorn Training
ACT
Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd
Dysgu Oedolion Cymru *(Bangor, Canolfan Fusnes Conwy, Clwb Pêl-droed Llandudno yn y Gymuned)*
Airbus
Prifysgol Bangor – Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru
Ysgol Uwchradd Bedwas
Rhwydwaith Rhieni Caerffili
Cambrian Training
Prifysgol Caerdydd
Coleg Caerdydd a'r Fro
Canolfan Dysgu Cymunedol Ceredigion
Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Cymru
Coleg Cambria
Coleg Gwent
Colegau Cymru
Clwstwr y Dwyrain Cymunedau'n Gyntaf (Casnewydd)
Gwasanaeth Ieuenctid Conwy
Canolfan Dysgu Glynebwy
Prifysgol Glyndŵr
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
ITEC Training Solutions
Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr
Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
North Wales Training
People Plus
Ysgol Uwchradd Prestatyn
Ysgol Gyfun Radur
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Ysgol Uwchradd Y Rhyl
Prifysgol Abertawe
Ysgol Esgob Llandaf
Ysgol Tonyrefail
Ysgol Bryn Gwalia
Ysgol Tryfan
Ysgol Uwchradd Bodedern